Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru:

## Gyda'n Gilydd mewn Balchder – sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+






**Chwefror 2023**

# Cynnwys

3 Neges gan y Prif Weinidog
4 Rhagair y Gweinidog
6 Cyflwyniad
7 Ein gweledigaeth
8 Sut y cyrhaeddwyd y sefyllfa sydd ohoni?
10 Y cyd-destun rhyngwladol
12 Creu Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru
13 Ymatebion i'r ymgynghoriad
14 Gwella camau gweithredu, eu rhoi ar waith, a'u monitro
16 Data ac ymchwil
17 Cynllun i holl bobl LHDTC+
18 Byddwn yn cydnabod 'Croestoriadedd'
19 Grwpiau rhanddeiliaid: Dim byd amdanon ni hebon ni
20 Themâu, tystiolaeth a chamau gweithredu
20 A. Hawliau dynol a chydnabyddiaeth
22 B. Diogelwch a rhyddid rhag gwahaniaethu
24 C. Cenedl noddfa i geiswyr lloches a ffoaduriaid
25 D: Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a lles
27 E: Addysg gynhwysol
29 F: Cymunedau, bywyd preifat a bywyd teuluol
31 G: Cymryd rhan ym mywyd Cymru: diwylliant a chwaraeon
32 H: Gweithleoedd cynhwysol
33 I: Effaith COVID-19
34 Cynllun Gweithredu LHDTC+: Camau gweithredu a dangosyddion perfformiad allweddol
59 Rhestr termau
61 Cyfeiriadau

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG45586, ISBN digidol 978-1-80535-335-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Neges gan y Prif Weinidog

Ni enillwyd tir dros achosion blaengar erioed heb frwydr. Pryd bynnag y caiff dadl dros newid ei chyflwyno, daw'r sawl sydd â budd yn y sefyllfa fel y mae a'r sawl sydd am ei hamddiffyn i'r golwg. Nid oes enghraifft gliriach o hynny nag yn y frwydr i sicrhau hawliau pobl LHDTC+. Mae hanes modern rhyddid LHDTC+ yn ymestyn ymhell dros hanner canrif. Mae'r gost ddynol gronnol sy'n gysylltiedig ag wynebu rhagfarn sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn wedi bod yn enfawr. Mae ymdrechion arloeswyr wedi sicrhau datblygiadau gwirioneddol bwysig. Ond mae angen inni barhau i fod yn wyliadwrus o hyd. Hwyrach nad yw gwahaniaethu na rhagfarn yn dderbyniol, yn gyfreithiol neu'n gymdeithasol, mwyach, ond yn sicr nid ydynt wedi diflannu, ac nid yw'r gwaith i sicrhau datblygiadau pellach ar ben.

Dyna pam mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ trawslywodraethol uchelgeisiol hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae cymunedau LHDTC+ yn eu hwynebu ar hyn o bryd, herio gwahaniaethu a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu yn ddiffuant, yn agored, ac yn rhydd fel nhw eu hunain.

Datganiad yw'r Cynllun hwn, a datganiad pwerus, o'n penderfyniad i barhau i gerdded ar hyd y ffordd honno gyda'n gilydd yma yng Nghymru, er mwyn adeiladu ar fudiad hynod ddewr. Rydym yn benderfynol, drwy weithio gyda'n gilydd a sefyll dros yr hyn a wyddom sy'n gywir, y gallwn greu'r Gymru gydradd a hardd honno yr ydym oll am ei gweld.

Dyma ein Cynllun cyntaf i roi ffocws ar ymateb i anghenion penodol ac amrywiaeth ein cymunedau LHDTC+ a'r hyn sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Am y tro cyntaf, rydym wedi dwyn ynghyd ein hymrwymiadau presennol ac wedi nodi sut y bwriadwn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant LHDTC+, er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran cyfleoedd bywyd, rhagolygon, hawliau a chanlyniadau i bobl LHDTC+ yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi cryfhau'r ffordd y byddwn yn cyflawni'r Cynllun ac yn cael ein dwyn i gyfrif amdano. Rydym wedi sicrhau cyllideb realistig a strategaeth werthuso i fonitro llwyddiant yn ystod tymor y Senedd hon. Ein nod yw cau'r bwlch rhwng cyhoeddi Cynllun Gweithredu, a'i weld yn cael ei roi ar waith. Yn wir, mae'r gwaith i roi'r Cynllun hwn ar waith eisoes wedi dechrau.

Gwyddom fod y problemau a wynebir gan gymunedau LHDTC+ yn aml yn cynnwys sawl dimensiwn: dyna pam mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn canolbwyntio ar groestoriadedd. Mae'n cyd-fynd yn agos â'n holl waith i hyrwyddo hawliau dynol a lleihau anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â rhywedd, anabledd, ffydd, oedran, a hil – bydd y ffordd y bydd hyn yn croestorri â hawliau LHDTC+, heb i neb gael ei adael ar ôl, yn allweddol i lwyddiant y Cynllun.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen y Cynllun am yr hyn sydd ynddo – ffrwyth ymdrechion cynifer o bobl yma yng Nghymru ond rydym megis cychwyn ar ein taith ac, yn sicr, nid ydym wedi cyrraedd pen y daith hon.



**Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS**
Prif Weinidog Cymru

# Rhagair y Gweinidog



Mae Llywodraeth Cymru yn sefyll gyda'n cymunedau LHDTC+ yng Nghymru ac oddi mewn iddynt. Dyna pam mae hawliau LHDTC+ wedi cael eu hymgorffori yn ein Rhaglen Lywodraethu a'u bod yn elfen allweddol o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, a pham rydym wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu beiddgar hwn. Mae'r Cynllun hwn yn cryfhau'r mesurau diogelu ar gyfer pobl LHDTC+, yn hyrwyddo cydraddoldeb i bawb ac yn helpu i gydgysylltu camau gweithredu rhwng y Llywodraeth, cymunedau a'r wlad er mwyn gwireddu ein huchelgais o sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl i LHDTC+.

Wrth inni ddod allan o bandemig COVID-19, mae'r gwerthoedd hyn hyd yn oed yn fwy canolog i greu Cymru decach, fwy llewyrchus a mwy cyfartal. Wrth wraidd yr ymrwymiad hwn mae cefnogaeth i bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol, anneuaidd, ryngryw, arywiol, aramantaidd, pobl gwiar a phobl sy'n cwestiynu (LHDTC+).

Rydym am i Gymru fod yn wlad lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel i fod yn nhw eu hunain, bod yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol, eu rhywedd, a'u mynegiant rhywedd, yn y cartref, yn y gwaith neu yn ystod gweithgareddau hamdden, heb deimlo dan fygythiad. Mae'n rhaid i'r Cynllun Gweithredu hwn fod yn rhan o'n hymrwymiad ar y cyd i greu Cymru lle mae pawb yn teimlo'n rhydd, wedi ein cefnogi, ac yn ddiogel i fod, a byw ein bywydau yn ddiffuant fel ni ein hunain.

Gwlad lle nad oes angen i bobl fel minnau feddwl tybed a yw'n ddiogel dal dwylo gyda'n partner yn gyhoeddus; Gwlad lle nad yw difrïo na sylwadau gwawdlyd, boed hynny ar-lein neu yn y stryd, yn beth cyffredin mwyach, a gwlad lle y rhoddwyd terfyn ar gasineb. Rydym wedi gwneud cryn dipyn o gynnydd yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf o ran hawliau LHDTC+, ond gall pobl LHDTC+ wynebu gwahaniaethu ac aflonyddu o hyd – boed hynny yn y gweithle neu mewn addysg, lleoliadau teuluol, gofal iechyd, gofal cymdeithasol a mwy. Fodd bynnag, rydym yn byw mewn oes lle y gall deimlo fel petaem o dan fygythiad, a bod perygl y byddwn yn colli ein hawliau, boed hynny dros y byd i gyd neu, yn anffodus, ychydig yn agosach na hynny, gyda safbwynt Llywodraeth Geidwadol bresennol y DU ar hawliau LHDTC+ fel petai'n edrych i'r gorffennol. Mae teimlad bod hanes yn cael ei ailadrodd, o iaith ddifrïol, ofn ac aralleiddio a dargedir at y gymuned draws i'r cymysgedd gwenwynig o gasineb at fenywod a homoffobia y mae llawer ohonom yn llawer rhy gyfarwydd ag ef.

Mae'n rhaid i hyn newid, ac mae'r gwaith i sicrhau'r newid hwnnw wedi dechrau.

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ wedi cael ei ddatblygu ar y cyd ag amrywiaeth eang o gymunedau a sefydliadau ledled Cymru. Mae'r nodau a'r camau gweithredu wedi cael eu llunio ar y cyd â phobl LHDTC+ ac rydym wedi gwneud yr arwyddair 'Nihil de nobis, sine nobis' ('dim byd amdanon ni hebon ni') yn un o'r gwerthoedd sy'n sail i'r Cynllun Gweithredu hwn a'r ffordd rydym yn gweithredu. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb, yn enwedig y Panel Arbenigwyr LHDTC+ am eu cyfraniad tuag at y gwaith hwn, a pharodrwydd pobl LHDTC+ i estyn eu ffydd i gredu yn y posibilrwydd o newid cadarnhaol.

Gyda'n gilydd, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym eisoes wedi gwneud cynnydd yng Nghymru. Rydym wedi bwrw ymlaen â diwygiadau i'r cwricwlwm, gan ymgorffori addysg sy'n LHDTC+-gynhwysol. Rydym wedi sefydlu gwasanaeth hunaniaeth rhywedd er mwyn helpu ein cymunedau traws i fod yn nhw eu hunain. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gynnig PrEP (Proffylacsis Cyn-gysylltiad, cyffur gwrth-HIV) am ddim gan y GIG. Rydym wedi cefnogi Pride Cymru a digwyddiadau Pride ar lawr gwlad mewn cymunedau ledled Cymru.

Rydym wedi cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar HIV i Gymru er mwyn ymgynghori arno yn 2022. Nod y cynllun hwn yw cyrraedd y targed o gael gwared ar heintiadau HIV newydd erbyn 2030, mynd i'r afael â diagnosis hwyr yng Nghymru a'r stigma sy'n gysylltiedig â HIV a gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda HIV. Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwasanaeth rhywedd yng Nghymru, sy'n nodi amseroedd aros byrrach cyn yr asesiad cyntaf na gwasanaethau rhywedd cyfatebol gan y GIG yn Lloegr ac rydym yn ymrwymedig i gwtogi ar amseroedd aros ymhellach. Rydym hefyd yn ymrwymedig i wella'r llwybr i gefnogi pobl ifanc drawsryweddol yng Nghymru. Bydd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sy'n gyfrifol am y gwasanaeth, yn edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael i ddiffinio'r model gwasanaeth clinigol ymhellach yn y dyfodol, a bydd lleisiau yn y gymuned yn chwarae rhan amlwg a chanolog yn y gwaith hwn.

Mae ein hymrwymiad i gefnogi pobl LHDTC+ sy'n ceisio noddfa yng Nghymru a dangos ein dyletswydd ryngwladol i arwain ym maes cydraddoldeb yn bwysicach nag erioed. Rydym wedi beirniadu Llywodraeth y DU ac wedi mynegi ein harswyd at ei bwriad i anfon ceiswyr lloches i Rwanda. Byddai hyn yn ergyd greulon i bobl LHDTC+, gan eu rhoi mewn perygl o gamdriniaeth, gwahaniaethu, arestio mympwyol, a chadw dan orchymyn. Erys ein lle yn y byd a materion LHDTC+ y tu hwnt i'n ffiniau yn bwysig inni o hyd – mae dyletswydd arnom i wneud yr hyn sy'n iawn yma yng Nghymru, gan gynnwys herio a gweithio gyda Llywodraeth y DU a thramor, drwy ddefnyddio ein llwyfan i ymgysylltu a dylanwadu.

Yma yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i wneud pob ymdrech i wahardd arferion trosi i bawb sy'n LHDTC+. Gan weithio gyda Phlaid Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, rydym wedi dechrau gwaith cymhleth, gan gynnwys ceisio cyngor cyfreithiol i ganfod pob peth y gallwn ei wneud i gyflwyno gwaharddiad yng Nghymru, a datblygu ein hymgyrch i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth ac erchyllterau arferion trosi, ac rydym wedi sefydlu Gweithgor o arbenigwyr i gynghori'r llywodraeth. Rydym yn falch o'n hymagwedd flaengar yng Nghymru, o wneud pethau'n wahanol a chydweithio mewn partneriaeth â Phlaid Cymru tuag at gymdeithas, gwleidyddiaeth a chenedl fwy cynhwysol a chefnogol.

Gwyddom fod angen inni sicrhau ein bod, nid yn unig yn gwrando ar leisiau a phrofiadau bywyd pobl LHDTC+, ond yn gweithredu ar hynny. Drwy'r ffordd y datblygwyd y Cynllun hwn gennym rydym wedi sicrhau bod y straeon a'r profiadau personol wedi'u hymgorffori yn y gwaith hwn. Rhoddodd pobl o'u hamser yn hael, a rhannodd llawer eu profiadau o wahaniaethu a gelyniaeth fel dinasyddion yng Nghymru. Rhannwyd hefyd yr hyn a gyflawnwyd ganddynt fel eiriolwyr, gweithwyr, ac arweinwr; fel ymchwilwyr, arbenigwyr, a gweithwyr proffesiynol; ac fel cymunedau. Mae'r Cynllun hwn yn ffrwyth ymdrech i gynnal deialogau agored a dynamig o fewn a rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, academyddion, ymgyrchwyr, grwpiau cymunedol, ac unigolion o bob rhan o'r cymunedau LHDTC+ yng Nghymru.

Yn ystod ymweliad i gyfarfod â grŵp Digon o Ysgol Plasmawr yng Nghaerdydd, gofynnais i'r myfyrwyr pa neges yr hoffent inni ei rhannu mewn datganiad i nodi Mis Pride 2022. Roedd y neges yn glir: "Rwyf am gael fy nathlu, yn hytrach na chael fy ngoddef yn unig". Y deyrnged fwyaf y gallwn ei thalu i'r arloeswyr a fraenarodd y ffordd i bobl fel minnau, yw parhau i weithio gyda'n gilydd dros achos cyffredin – siarad ar goedd, sefyll gyda'n gilydd a chwarae ein rhan ein hunain i sicrhau dyfodol tecach lle rydym yn teimlo yn ddiogel, wedi ein cefnogi ac wedi ein dathlu. Gyda'n Gilydd mewn Balchder a thuag at gynnydd, gallwn greu'r Gymru a garem a sicrhau mai ni yw'r genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+.



**Hannah Blythyn AS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

# Cyflwyniad

## Hawliau dynol yw hawliau LHDTC+.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+. Mae'n nod uchelgeisiol, ond credwn y gallwn gefnogi holl bobl LHDTC+ Cymru i fyw eu bywydau i'r eithaf: i fod yn iach, yn hapus, a theimlo'n ddiogel.

Fel llywodraeth, safwn gyda'n cymunedau LHDTC+. Dyna pam mae hawliau LHDTC+ wedi'u hymgorffori yn ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu (**Llywodraeth Cymru 2021a**), yn elfen allweddol o'r Cytundeb Cydweithio (**Llywodraeth Cymru 2021b**) â Phlaid Cymru, a pham rydym wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu uchelgeisiol hwn. Ein nod, drwy'r Cynllun hwn, yw dangos ein hymrwymiad clir i barchu, diogelu a chyflawni hawliau dynol holl bobl LHDTC+ Cymru (**OHCHR 2022a**).

Bydd y Cynllun hwn yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ yn y llywodraeth a chyda'n partneriaid. Mae'n nodi camau pendant y byddwn yn eu cymryd i gryfhau cydraddoldeb i bobl LHDTC+, herio gwahaniaethu, a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu yn ddiffuant, yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ hwn i Gymru wedi cael ei sefydlu i helpu i gydgysylltu camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill. Mae'r Cynllun yn amlinellu gweledigaeth gyffredinol i wella bywydau pobl LHDTC+ a chanlyniadau iddynt. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o gamau polisi penodol sy'n ymwneud â hawliau dynol, addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, chwaraeon, diwylliant, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Yn benodol, drwy'r Cynllun Gweithredu hwn, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i amddiffyn a hyrwyddo hawliau ac urddas pobl draws ac anneuaidd, a helpu'r cymunedau hynny i deimlo'n gyfforddus ac yn rhan o gymdeithas yng Nghymru.

Am y tro cyntaf, rydym wedi dwyn ynghyd ein hymrwymiadau presennol ac wedi nodi sut y bwriadwn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant LHDTC+, er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau, rhagolygon, a chanlyniadau i bobl LHDTC+, heddiw ac yn y dyfodol.



# Ein gweledigaeth

Gwnaethom ddatblygu gweledigaeth, neu fframwaith lefel uwch, a all ein tywys tuag at yr hyn rydym am ei gyflawni drwy'r Cynllun Gweithredu hwn. Bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod i gyd ar yr un trywydd, ac yn anelu at gyflawni'r un nod. Credwn ym mhwysigrwydd creu newid cynaliadwy, hirdymor, gan ddechrau heddiw. Rydym wedi sicrhau ymrwymiad amrywiaeth eang o bartneriaid yn y gwaith o greu'r Cynllun Gweithredu hwn, sy'n rhannu ein gweledigaeth:

Ar gyfer pawb sy'n LHDTC+, byddwn yn:

- cryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol **(Llywodraeth Cymru 2022a)**
- gwneud Cymru yn lle mwy diogel
- gwneud Cymru yn Genedl Noddfa i fudwyr LHDTC+
- gwella canlyniadau gofal iechyd
- sicrhau bod addysg yng Nghymru yn gynhwysol
- gwella cynhwysiant a chyfranogiad ym mhob rhan o fywyd
- gwrando ar ein cymunedau LHDTC+ a gweithio gyda nhw
- amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl draws ac anneuaidd.

Mae'r Cynllun hwn yn gosod meincnod o ran sut y byddwn yn cyflawni'r nodau heriol ac uchelgeisiol hyn a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ wedi eu cynnwys ac wedi eu dathlu.

> **"Deugain mlynedd yn ôl, roedd pobl hoyw yn dioddef anfri cas ac ymosodiadau rhagfarnllyd. Heddiw, mae pobl draws yn destun llif tebyg o ymosodiadau wedi eu hysgogi gan gasineb. Nid yw ymestyn hawliau i un grŵp yn golygu erydu hawliau o un arall. Nid ydym yn credu y bydd gwella hawliau i fenywod traws yn niweidio hawliau i fenywod a merched cisryweddol. Mae ein cymunedau traws yn brifo, mae ofn arnyn nhw, ac maen nhw'n dioddef niwed. Fel cymdeithas, gallwn ni ac mae'n rhaid i ni wneud yn well na hyn."**
>
> *Hannah Blythyn MS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol (Senedd Cymru 2022a)*



# Sut y cyrhaeddwyd y sefyllfa sydd ohoni?

Rydym wedi gwneud cryn dipyn o gynnydd yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf o ran cryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol i bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol, gwiar, anneuaidd, ryngryw neu bobl ag Amrywiadau mewn Nodweddion Rhyw (gweler y *Rhestr termau* isod), arywiol, ac aramantaidd yng Nghymru a ledled y DU – hynny yw pob cymuned LHDTC+. Fodd bynnag, ni allwn laesu dwylo, gan fod hawliau LHDTC+ yn aml o dan fygythiad, ac mae perygl y bydd hawliau a enillwyd drwy fawr ymdrech yn cael eu gwanhau ledled y byd, gan gynnwys yma yn y DU.

Mae newidiadau i'r gyfraith wedi golygu bod ysgolion, sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus bellach yn gwneud mwy i hyrwyddo'r hawliau hyn a mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDTC+. Mae hawliau priodi a mabwysiadu cyfartal bellach yn realiti ac erbyn hyn rydym wedi cael gwared ar Adran 28 – cyfraith a basiwyd yn 1988 a waharddodd awdurdodau lleol ac ysgolion rhag hyrwyddo addysgu derbynioldeb cyfunrhywiaeth fel perthynas deuluol honedig (**Deddf Llywodraeth Leol 1988**). Rydym wedi gweld newid enfawr mewn agweddau cyhoeddus cadarnhaol tuag at gymunedau LHDTC+ ac o blaid cynhwysiant LHDTC+, yn ogystal â chael gwell darlun o grwpiau LHDTC+ yng Nghymru. Mae'r penderfyniad i gynnwys cwestiynau gwirfoddol ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2021 yn enghraifft o hyn (**Swyddfa Ystadegau Gwladol 2023**; **Llywodraeth Cymru 2023**), lle yr ymatebodd 92.4% o'r boblogaeth 16 oed a hŷn i'r cwestiwn gwirfoddol ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol yng Nghymru, a dewisodd tua 77,000 o breswylwyr arferol yng Nghymru gyfeiriadedd rhywiol LHD+ yn 2021.

Fodd bynnag, mae llawer yn parhau i wynebu cryn rwystrau i gymryd rhan lawn a chyfartal mewn cymdeithas yng Nghymru. Mewn arolwg a gomisiynwyd i helpu i ddatblygu'r Cynllun hwn yn ystod haf 2020 (**Llywodraeth Cymru 2021c**), gwelwyd, ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, fod 78% o'r ymatebwyr wedi osgoi bod yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu rhywedd rhag ofn y byddant yn cael ymateb negyddol gan eraill. At hynny, roedd 46% o bobl LHDTC+ yng Nghymru wedi cael profiad o aflonyddu geiriol yn y flwyddyn cyn yr arolwg. Mae canfyddiadau o'r fath yn dangos y profiadau gofidus y mae pobl LHDTC+ yn parhau i'w hwynebu yn y Gymru gyfoes ac yn dangos hefyd faint o gynnydd sydd i'w wneud er mwyn sicrhau cydraddoldeb, ac er mwyn i bobl deimlo'n hapus ac yn ddiogel drwy, yn syml, fod yn nhw eu hunain.

Hyd yn oed cyn pandemig COVID-19, gwyddem fod cymunedau LHDTC+ yn fwy tebygol o brofi nifer o anghydraddoldebau neu ganlyniadau gwaeth o'u cymharu â phoblogaethau heterorywiol a cisryweddol (**Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru 2022**; **Llywodraeth Cymru 2021c**; **Llywodraeth Cymru 2021d: tudalen 3**). Yn benodol, mae'r cymunedau hynny yn nodi'r profiadau canlynol:

- lefelau is o foddhad â bywyd
- mynediad gwaeth at wasanaethau gofal iechyd
- bwlio, gwahaniaethu a throseddau casineb yn yr ysgol, y gweithle neu yn eu cymunedau
- lefel uwch o gamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol a smygu
- iechyd meddwl gwaeth, gan gynnwys unigrwydd, iselder, a hunanladdiad.

Mae'r anfanteision hyn yn cael eu dwysáu ymhellach pan fydd anghenion penodol pobl LHDTC+ a ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed yn croestorri â nodweddion gwarchodedig eraill, gan gynnwys oedran, hil, crefydd ac anabledd (**Switchboard 2018**).

Datgelodd pandemig COVID-19 yr anghydraddoldebau strwythurol roedd y cymunedau LHDTC+ wedi'u hymyleiddio fwyaf ac o dan yr anfantais fwyaf yng Nghymru yn eu hwynebu ac, mewn rhai achosion mae wedi gwneud yr anghydraddoldebau hynny yn waeth (**Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru 2022**). O ran pobl LHDTC+, mae'r ymchwil yn nodi pryderon o hyd ym maes addysg, diogelwch personol a chymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol, a'r gweithle (**Llywodraeth Cymru 2021c**). Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil, sef adolygiad o'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes, a chyhoeddodd adroddiad ym mis Ebrill 2022 ar effaith COVID-19 ar gymunedau LHDTC+, a daeth darlun tebyg i'r golwg (**Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru 2022**). Nododd yr adroddiadau hyn fod angen cydlynu strategol gwell ynglŷn â materion LHDTC+, gan gynnwys casglu data cadarn, a defnyddio data i wella polisïau. At hynny, mewn arsylwadau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, er enghraifft yn yr Adroddiad Drws ar Glo (**Llywodraeth Cymru 2021e**) ac yn ein hymateb i Adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Pobl dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd ethnig COVID-19 (**Llywodraeth Cymru 2020a**), datgelwyd yr anghydraddoldebau pellach roedd cymunedau ethnig lleiafrifol a phobl anabl yng Nghymru yn eu hwynebu.

Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r golwg hefyd yn awgrymu y gallai pobl LHDTC+ fod wedi wynebu rhwystrau a oedd yn eu hatal rhag cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd neu feddyginiaeth o ganlyniad i'r pandemig, a hefyd mewn rhai achosion wedi wynebu mwy o risg o drais, camdriniaeth, digartrefedd, cyfraddau is o gyflogaeth, ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd (**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2020**; **Sefydliad LHDT 2020**; **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018a: tt139–140**). Dengys ymchwil fod pobl LHDTC+ yn fwy tebygol o ddioddef cam-drin domestig (**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018a: tt139–140**). At hynny, mae Rhaglen Cymorth ar gyfer Cam-drin Domestig y Sefydliad LHDT wedi gweld y galw am gymorth yn cynyddu ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud: cynnydd o 38% yn nifer y bobl a gyfeiriwyd at gymorth cam-drin domestig, a chynnydd o 38% yn y galwadau i'r llinell gymorth a gyfeiriodd at gam-drin domestig (**Sefydliad LHDT 2020**). Mae pobl ifanc LHDT yn fwy tebygol o fynd yn ddigartref na'u cyfoedion nad ydynt yn LHDT, gan gyfrif am hyd at 24% o'r boblogaeth o bobl ifanc ddigartref (**Ymddiriedolaeth Albert Kennedy 2015**) ac mae cyfraddau cyflogaeth dipyn yn is i bobl draws ac anneuaidd, ac yn is eto i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n drawsryweddol (**GEO 2018a**). Mae rhannau o'r boblogaeth LHDTC+ hefyd yn fwy tebygol o fod yn unig neu wedi'u hynysu'n gymdeithasol, yn enwedig pobl hŷn (**Sefydliad LHDT 2020**).

Nod y camau gweithredu yn y cynllun hwn yw mynd i'r afael â sawl un o'r materion a'r rhwystrau hyn, drwy gynnig camau gweithredu diriaethol a mesuradwy i'w cymryd i wella bywydau pobl LHDTC+ yng Nghymru. Ni ddylid byth â chymryd cynnydd yn ganiataol a bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn i Gymru arwain drwy esiampl a diogelu rhyddidau pobl LHDTC+ a enillwyd drwy fawr ymdrech.



# Y cyd-destun rhyngwladol

Rydym wedi gweld mwy o agweddau gwrth-LHDTC+ a mwy o elyniaeth tuag at bobl LHDTC+ mewn llawer rhan o'r byd. Gan edrych ar ein cymdogion yn Ewrop, gan gynnwys yn y DU, rydym wedi gweld mwy o rethreg wrth-LHDTC+. Fodd bynnag, mae hyn yn mynd yn groes i gefnogaeth fawr ymhlith y cyhoedd o blaid mynd i'r afael ag allgáu pobl LHDTC+. Fel y nododd y Gymdeithas Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol, Draws a Rhyngryw Ryngwladol yn ei hadroddiad yn 2022, mae dwy ochr i bob stori sy'n dod i'r amlwg (**ILGA-Europe 2022a**):

> *"On one hand, there was a severe rise in 2021 of anti-LGBTI rhetoric from politicians and other leaders, which has fuelled a wave of violence, with anti-LGBTI hate crime reported in every country this year; while on the other the response to this has been an allied determination in many countries, and at the European level, to tackle hatred and exclusion of LGBTI people."*

Rhaid inni gydnabod i'r DU, a nodwyd fel y genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDT ar un adeg, fod yn safle 14 yn y tabl Ewropeaidd mwyaf diweddar (**ILGA-Europe 2022b**). Rhaid inni gydnabod bod anfantais, anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn dal i fod yn realiti i lawer o bobl LHDTC+ sy'n byw yng Nghymru. Yn fwy cyffredinol, mae hawliau dynol pobl LHDTC+ yn dal i fod o dan fygythiad neu o dan fygythiad o'r newydd mewn llawer o wledydd.

O safbwynt rhyngwladol, yn sail i'r Cynllun Gweithredu hwn mae'r dull gweithredu yn seiliedig ar hawliau dynol a amlinellwyd gan Uchel Gomisiynydd y CU (**UNSDG 2022**) ac Arbenigwr Annibynnol y CU ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd (IESOGI) (**OHCHR 2022b**), ac mae'n cefnogi'r gwaith o wireddu hawliau a warantwyd i bobl LHDTC+, gan gynnwys y rhai yn y:

- Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.

Yn hyn o beth, rydym hefyd yn croesawu penderfyniad Cyngor y CU ar Hawliau Dynol i adnewyddu mandad Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd ym mis Gorffennaf 2022 (**OHCHR 2022c**). Yn 2016, pan grëwyd mandad cyntaf erioed yr Arbenigwr Annibynnol yn y system hawliau dynol, anfonwyd neges glir i'r byd y dylai pob un sy'n LHDTC+, yn ddieithriad, fod yn gallu byw bywyd heb drais neu wahaniaethu. Nid oedd adnewyddu'r mandad yn beth awtomatig, ac rydym yn falch o nodi y bydd y gwaith pwysig hwn yn parhau, sy'n dangos cefnogaeth amlwg i fynd i'r afael â thrais a gwahaniaethu yn erbyn pobl â cyfeiriadeddau rhywiol a hunaniaethau amrywiol dros y byd i gyd.

Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau y bydd y Cynllun hefyd yn cyfrannu'n fawr at waith Llywodraeth Cymru i gyflawni swyddogaethau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd yn gysylltiedig â gwaith ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau, anabledd, hil a nodweddion gwarchodedig eraill o dan y Ddeddf hon. Rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod ein Cynlluniau Gweithredu ym maes cydraddoldeb yn gweithio gyda'i gilydd.

Er mai hwn yw'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDTC+ a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ymagwedd ehangach tuag at gydraddoldeb prif ffrwd a chryfhau'r ffordd y diogelir hawliau dynol i bawb. Fel y cyfryw, dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar Anabledd a'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau (**Llywodraeth Cymru 2020b**; **Llywodraeth Cymru 2022b**; **Llywodraeth Cymru 2019a**; a **Llywodraeth Cymru 2020e**).



# Creu Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag amrywiaeth eang o gymunedau LHDTC+ a'r sefydliadau sy'n cefnogi'r cymunedau hyn er mwyn helpu i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu hwn. Yn ystod haf 2020, gwnaethom gomisiynu arolwg i gofnodi profiadau bywyd pobl LHDTC+ yng Nghymru, ochr yn ochr â chynnal cyfres o grwpiau ffocws. Ymhlith y pynciau pwysig a godwyd yn yr arolwg, y cafwyd dros 600 o ymatebion iddo, roedd (1) mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDTC+, (2) gwella diogelwch, a (3) mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn enwedig iechyd traws.

Edrychodd y grwpiau ffocws ac anghenion pobl ifanc LHDTC+; pobl hŷn; pobl anabl; a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a gwnaethom weithio hefyd gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys TUC Cymru, y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod, Pride Cymru a Llinell Gymorth LHDT Cymru.

Ym mis Tachwedd 2020, dygwyd Grŵp Cyfeirio Allanol ar gyfer LHDTC+ ynghyd i roi cyngor ac arweiniad ac ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd y Panel Arbenigwyr Annibynnol LHDTC+ i roi cyngor manwl ar gydraddoldeb LHDTC+ yng Nghymru. Rydym yn ddyledus i'r amrywiaeth eang o randdeiliaid o'r holl gymunedau sydd wedi gweithio gyda ni i gyrraedd y cam hwn, yn enwedig y Panel Arbenigwyr Annibynnol LHDTC+. Mae'r Panel Arbenigwyr hwn yn cynnwys pobl sydd â chryn brofiad cymunedol, proffesiynol ac academaidd, yn ogystal â phrofiad bywyd personol. Ategwyd gwaith y Panel gan weithgorau ar wahân a ystyriodd lawer o faterion yn fanylach. Paratodd y Panel Arbenigwyr adroddiad (**Llywodraeth Cymru 2021c**) yn cynnwys argymhellion ynglŷn ag ymgorffori hawliau dynol mewn cyfraith ddomestig, cydlynu cynlluniau'n strategol a'u hintegreiddio, a hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer amrywiaeth eang o feysydd polisi, gan gynnwys :

- cydnabod pobl draws ac anneuaidd
- diogelwch
- y cartref a chymunedau
- iechyd a gofal cymdeithasol
- addysg a dysgu gydol oes
- y gweithle
- cefnogi'r ymateb i COVID-19.

Bu'r argymhellion hyn yn sail i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft y cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad arno rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2021 (**Llywodraeth Cymru 2021c**).

# Ymatebion i’r ymgynghoriad

Cafwyd mwy na 1,300 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau, a oedd yn cynnig eu barn ar y Cynllun arfaethedig. Cynhaliwyd dadansoddiad llawn o’r ymatebion gan gwmni ymchwil allanol sydd wedi cael ei ddefnyddio i helpu i baratoi’r cynllun gweithredu terfynol. Rydym yn ddiolchgar i’r holl unigolion a sefydliadau a roddodd o’u hamser i ymateb i’r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar y cyd â’r Cynllun Gweithredu hwn.

Nodwyd dwy ymgyrch arwyddocaol yn yr ymatebion. Roedd un yn canolbwyntio ar wahardd arferion trosi, a elwir weithiau yn “therapi trosi”, ac yn dadlau o blaid diffiniad mwy penodol yn y Cynllun Gweithredu. Roedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo y byddai diffiniad cliriach yn werthfawr o ran sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso mewn ffordd gytbwys. Roedd ymgyrch arall yn canolbwyntio ar bryderon a’r gred y dylid ymdrin â materion ynglŷn â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, a rhywedd o dan gynllun gweithredu ar wahân.

Yn hyn o beth, mae’n bwysig nodi bod safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn â phobl draws yn glir (**Llywodraeth Cymru 2020c**); **Senedd Cymru 2022b**):

> ***“Cred Llywodraeth Cymru fod menywod trawsrywiol yn fenywod a bod dynion trawsrywiol yn ddynion a bod hunaniaethau anneuaidd yn ddilys.”***

Drwy Asesiadau Effaith (gweler isod), ymgysylltu â’r Panel Arbenigwyr LHDTC+, a’r ymatebion i’r ymgynghoriad, rydym yn parhau i werthuso effeithiau posibl ein Cynllun Gweithredu LHDTC+. Rydym wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig ac wedi gwerthuso effeithiau posibl y Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar hawliau menywod ac, wrth ystyried y ddarpariaeth a nodwyd yn Atodlen 3 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym o’r farn na fydd cymorth i bobl LHDTC+ na chyhoeddi’r Cynllun hwn yn arwain at wanhau hawliau menywod, gan gynnwys menywod cisryweddol a menywod trawsryweddol.



# Gwella camau gweithredu, eu rhoi ar waith, a'u monitro

Mewn ymateb i'n hymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu drafft, codwyd yr angen am eglurder ynglŷn â rhai camau gweithredu a'r ffordd y byddent yn cael eu rhoi ar waith. Dywedwyd bod rhai o'r camau gweithredu yn rhy eang a bod angen cynigion manylach, gan gynnwys pwy oedd yn gyfrifol am bob cam gweithredu (e.e. "perchnogion camau gweithredu"), pryd y câi pob cam gweithredu ei gymryd, a beth fyddai'r canlyniad i bobl LHDTC+ yng Nghymru. Soniwyd hefyd fod camau gweithredu ynglŷn ag ymchwil a chasglu data wedi cael eu hawgrymu sawl gwaith drwy'r Cynllun Gweithredu drafft cyfan, ond heb unrhyw ddiben na nodau clir. Yn olaf, codwyd pwynt dro ar ôl tro ynglŷn â therminoleg aneglur a'r angen am restr termau.

Er mwyn rhoi eglurdeb ynglŷn â'r agweddau hynny, rydym wedi gwahanu ein gweledigaeth ar gyfer y Cynllun Gweithredu LHDTC+ oddi wrth y canlyniadau ehangach yr hoffem eu cyflawni gyda'r camau gweithredu wedi'u diweddaru. Mae'r tabl o gamau gweithredu (gweler isod, *"Cynllun Gweithredu LHDTC+: Camau Gweithredu a Dangosyddion Perfformiad Allweddol"*) wedi cael ei ddiweddaru i nodi rhai gweithgareddau mesuradwy, gan gynnwys allbynnau; pwy sy'n gyfrifol am bob cam gweithredu; sut y caiff pob cam gweithredu ei gymryd; a sut y byddwn yn mesur llwyddiant. Mae'r camau gweithredu ynglŷn ag ymchwil a chasglu data wedi'u gwneud yn fwy eglur yng nghyd-destun cyflawni nod penodol, boed hynny o ran gwella gwasanaethau neu lunio strategaethau a chynlluniau mewn maes penodol. Rydym yn anelu at roi diweddariad cynnydd bob blwyddyn i ddangos beth a gyflawnwyd a beth yn rhagor y mae angen ei wneud ac, yn y pen draw, rydym yn gobeithio mesur effaith y Cynllun Gweithredu ar gymunedau LHDTC+ yn y dyfodol. Ychwanegwyd rhestr termau sydd wedi cael ei rhannu â chynrychiolwyr cymunedau LHDTC+ er mwyn cadarnhau cywirdeb y termau a bod yr holl dermau angenrheidiol wedi cael eu cynnwys, at y cynllun hwn (gweler isod "**Rhestr termau**").

Bydd mesur effaith y Cynllun Gweithredu hwn ar gymunedau LHDTC+ yn hanfodol o ran gwerthuso ei lwyddiant a'i effeithiolrwydd. Bydd gwaith yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i ddechrau er mwyn amlinellu sut y gall y Cynllun Gweithredu hwn gael ei werthuso. Mae hyn yn cynnwys datblygu damcaniaeth newid i gyfrif am y ffordd y bydd gweithgareddau yn arwain at y canlyniadau a'r effeithiau a ddymunir, a'r tybiaethau y bydd y llwyddiant hwn yn seiliedig arnynt. Byddwn hefyd yn nodi pa wybodaeth y gellir ei defnyddio i ddangos effaith y Cynllun Gweithredu, a ph'un a yw'r data hyn eisoes yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill neu a fydd angen casglu data eraill. Bydd y gwaith o lunio'r gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu a'i roi ar waith yn cael ei wneud mewn cydweithrediad agos ag Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant Llywodraeth Cymru.

Bydd effaith y Cynllun Gweithredu hwn, a Chynlluniau Gweithredu eraill Llywodraeth Cymru, yn dibynnu ar y ffordd rydym yn eu rhoi ar waith. Bydd dull gweithredu croestoriadol yn hollbwysig. Drwy ein gwaith gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, byddwn yn ystyried ac yn defnyddio arbenigedd ar amrywiaeth o nodweddion gwarchodedig, er mwyn sicrhau bod effeithiau cyfun yn cael eu hystyried, wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith. Bydd ein grŵp o randdeiliaid mewnol, sy'n cynnwys Dirprwy Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Polisi yn bennaf, yn ganolbwynt i lywodraethu gwaith sy'n ymwneud â LHDTC+ yn Llywodraeth Cymru, ac yn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gydgysylltu i lunio a chyflwyno'r cynllun. Bydd fframweithiau llywodraethu ar gyfer yr holl gynlluniau cydraddoldeb eraill hefyd yn cael eu haddasu at yr un diben, a bydd dulliau adrodd, gan gynnwys adroddiadau ar risg, yn cael eu nodi, a'u rhoi ar waith.

Mae gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn effeithio ar fwy na thair miliwn o bobl bob dydd. **Asesiad Effaith** yw ffordd strwythuredig o ystyried y ffactorau sy'n golygu bod ein polisïau yn effeithio ar fywydau pobl wahanol mewn ffyrdd gwahanol. Mae asesiadau effaith yn ein harwain tuag at well prosesau llunio polisïau a'u rhoi ar waith ac yn cefnogi ein hymdrechion i gydweithio ar draws portffolios i wireddu gweledigaeth y Gweinidogion i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl yng Nghymru. Maent yn ymwneud â nodi canlyniadau posibl cam gweithredu cyfredol neu arfaethedig, ac yn chwarae rhan bwysig mewn arfarniadau o opsiynau a phrosesau gwneud penderfyniadau. Dyna pam mae ein Hasesiadau Effaith yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ hwn, gan gynnwys yr asesiad effaith drwy ein **Hasesiad Effaith Integredig**.





# Data ac ymchwil

Mae casglu a dadansoddi data, gan gynnwys naratifau personol gan y rhai sy'n arbenigwyr drwy brofiad, yn allweddol i ddeall graddau'r anghydraddoldebau a wynebir gan bobl LHDTC+ yng Nghymru. Rydym yn ymwybodol bod yn rhaid inni wneud rhagor i wella prosesau casglu ac adrodd data ar gydraddoldeb yng Nghymru. Felly, rydym wedi sefydlu Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru a fydd yn rhoi cymorth dadansoddol trawsbynciol er mwyn gwella'r broses o goladu tystiolaeth ynglŷn â chydraddoldebau, ei hargaeledd a'r defnydd a wneir ohoni, a all yn ei dro helpu i ysgogi newid ar lawr gwlad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yng Nghymru. Er enghraifft, o ran y Camau Gweithredu hynny yn y Cynllun hwn lle mae Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o gasglu a defnyddio data, caiff arferion gorau sy'n ymwneud â chydymffurfio â GDPR eu defnyddio.

Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn casglu tystiolaeth y gellir gweithredu arni ynglŷn â'i gallu i gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth, a ph'un a ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ai peidio. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth fel rhan o unrhyw ymarfer casglu data yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i gyflawni swyddogaethau a rôl graidd Llywodraeth Cymru. Weithiau byddwn yn casglu data categori arbennig a'r sail gyfreithlon dros brosesu'r wybodaeth hon yw ei bod at ddibenion ystadegol neu ymchwil. Caiff yr holl ddata personol a ddarperir i Lywodraeth Cymru eu cadw ar weinyddion diogel, a chaiff manylion cyswllt ac unrhyw ddata personol a gasglwn eu storio mewn ffolderi cyfyngedig. Efallai y bydd gofynion prosiectau ymchwil yn wahanol o ystyried am faint o amser y cedwir data personol ac felly caiff cyfranogwyr pob prosiect ymchwil eu hysbysu ar wahân am y terfyn amser perthnasol ar gyfer dinistrio data.

Caiff yr holl ddata a gesglir gan Lywodraeth Cymru eu nodi mewn adroddiadau mewn fformat wedi'i anonymeiddio. Ni fydd adroddiadau Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion cyswllt, a bydd unrhyw wybodaeth mewn atebion penagored a allai arwain at adnabod person yn cael ei dileu. Bydd hyn yn digwydd bob tro oni chytunir fel arall â'r unigolyn/unigolion dan sylw. O dan GDPR y DU, mae gan ddarparwyr gwybodaeth bersonol i Lywodraeth Cymru yr hawliau canlynol:

- i weld copi o'u data eich hun
- ei gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar unrhyw brosesu (o dan amgylchiadau penodol)
- i'w data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: **https://ico.org.uk/**.
Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ,
E-bost: **Swyddogdiogeludata@llyw.cymru**

# Cynllun i holl bobl LHDTC+

Nododd ymatebion i'r ymgynghoriad ddiffyg cydnabyddiaeth am rai grwpiau neu gymunedau LHDTC+ penodol, fel pobl ddeurywiol, ryngryw, ac arywiol ac aramantaidd (Ace/Aro) yn y Cynllun Gweithredu, yn ogystal â diffyg ffocws ar brofiadau pobl anneuaidd. Mae rhai o'r camau gweithredu bellach yn nodi'n glir eu bod yn ymwneud â phob grŵp o dan yr ambarél LHDTC+ ehangach, sy'n cynnwys y cymunedau hynny; tra bod eraill yn ymwneud yn benodol ag anghenion grwpiau nad ydynt yn cael gwasanaeth digonol, megis pobl ddeurywiol, anneuaidd a rhyngryw.

Mae grwpiau rhanddeiliaid wedi argymell y dylem ddefnyddio'r acronym LHDTC+ mewn perthynas â'r gwaith hwn. Mae'r Panel Arbenigwyr a Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gwahanol safbwyntiau a defnyddiau ymhlith ein cymunedau, ac y bydd arferion yn debygol o newid eto yn y dyfodol. Am ragor o fanylion, gweler ein *Rhestr termau* isod.

Caiff y Cynllun Gweithredu hwn ei gyhoeddi ar y ffurf fwyaf hygyrch posibl – er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd pawb sy'n LHDTC+, gan gynnwys pobl ifanc a phobl anabl. Pan fydd y cynllun yn cyfeirio at bobl LHDTC+, mae'n cynnwys pobl o bob oedran.

Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais fel Llywodraeth Cymru yw gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Ar ddechrau'r chweched Senedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen waith pum mlynedd i gyflawni "Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg" yn ystod 2021-26 (**Llywodraeth Cymru 2022c**). Er nad yw'n nodwedd warchodedig, mae gan bobl LHDTC+ sy'n siarad Cymraeg anghenion penodol yn gysylltiedig â'r Gymraeg a hunaniaethau croestoriadol. Felly, dylid darllen y Cynllun Gweithredu LHDTC+ hwn ar y cyd â Strategaeth y Gymraeg a chynlluniau cysylltiedig, gan ystyried rôl y Gymraeg yn y gweithgareddau a amlinellir isod. Mae'r Gymraeg, a'r cyfrifoldeb am weithredu i'w diogelu, yn perthyn i ni gyd. Mae gan bawb rôl i'w chwarae, ni waeth ble maent yn byw na faint o Gymraeg y gallant ei siarad. Rydym yn gobeithio gweld mwy o sefydliadau ac arweinwyr cyhoeddus yn ymgymryd â chyfrifoldeb dros yr iaith.



# Byddwn yn cydnabod 'Croestoriadedd'

Mae cydnabod anghenion croestoriadol sawl nodwedd unigolyn neu grŵp megis cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, anabledd, a chrefydd, yn aml yn cael ei ddiffinio fel "croestoriadedd" (gweler isod, *"Rhestr termau"*). Yn yr ymatebion, mynegwyd awydd amlwg i weld mwy o gydnabyddiaeth o bobl LHDTC+ fel unigolion a all fod ganddynt lawer o agweddau a haenau eraill ar eu hunaniaeth a'u bywydau Gall rhai o'r nodweddion eraill hyn fod yn gysylltiedig â rhwystrau ychwanegol neu anghydraddoldeb hefyd. Fel llywodraeth, credwn na ddylem fynd i'r afael ag anghydraddoldebau LHDTC+ ar eu pen eu hunain, sydd wedi bod yn gymhelliant i'r Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â lleiafrifoedd, grwpiau nad ydynt yn cael gwasanaeth digonol neu grwpiau dan anfantais. Bwriedir i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chynlluniau a mentrau eraill, megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar Anabledd, a'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â phob math o wahaniaethu ac yn ei leihau i bawb, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau personol. Er enghraifft, mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu polisi anabledd dysgu o 2022-2026 a'i roi ar waith, a chanllawiau i helpu i ddarparu gwasanaethau awtistiaeth. Hefyd, mae ein Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-2026 yn anelu at gymryd camau i fynd i'r afael â thrais, anghydraddoldeb rhywiol a chasineb at fenywod – mae trais ar sail rhywedd, casineb at fenywod a rhywiaeth yn broblemau a wynebir gan lawer o bobl LHDTC+ o hyd. Felly, wrth weithio, mae'n rhaid inni ystyried agweddau eraill ar wahaniaethu a sut maent yn croestorri â rhywedd, oedran, hil a LHDTC+. Dylai'r strategaethau a'r cynlluniau a grybwyllir uchod hefyd gael eu defnyddio ar y cyd â'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ hwn.

> ***"Attaining cultural humility with the full appreciation of the intersectionality of humanity is an ultimate educational goal."***
>
> *Coleman et al. 2022*



# Grwpiau rhanddeiliaid: Dim byd amdanon ni hebon ni

Wrth ailysgrifennu'r cynllun hwn ein nod oedd dweud beth y byddwn yn ei wneud, yn gliriach, yn enwedig o ran y gwaith gyda chymunedau a grwpiau ledled Cymru. Mae rôl weithredol rhanddeiliaid a chynrychiolwyr cymunedol wedi bod yn elfen allweddol yn ystod y broses o ddatblygu'r cynllun hwn. Bydd ymgysylltu hollbwysig o'r fath yn parhau wrth inni symud ymlaen i gymryd y camau gweithredu. Byddwn yn parhau i wrando ar anghenion grwpiau, sefydliadau a chymunedau o dan yr ambarél LHDTC+ gyffredinol a'u deall.

Caiff y Panel Arbenigwyr LHDTC+, a roddodd gymorth amhrisiadwy inni wrth lunio'r cynllun hwn, ei adnewyddu a'i ffurfioli'n grŵp cynghori parhaus a fydd yn parhau i roi cyngor a dirnadaeth er mwyn helpu i roi'r cynllun ar waith, gan ganolbwyntio ar anghenion cymunedau LHDTC+ yng Nghymru.

Byddwn hefyd yn parhau i wella a chynyddu lefel ein hymgysylltu â sefydliadau llawr gwlad sy'n cefnogi pobl LHDTC+ yng Nghymru, yn ogystal â grwpiau ledled Cymru sydd â diddordeb uniongyrchol yn y maes polisi hwn. Byddwn yn rhoi sylw penodol i faterion sy'n ymwneud â gwahardd arferion trosi a sefydlu gweithgor o bobl sydd â phrofiad proffesiynol a phrofiad bywyd yn y maes hwn.



# Themâu, tystiolaeth a chamau gweithredu

## A. Hawliau dynol a chydnabyddiaeth

### Gweledigaeth: Byddwn yn cryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol

Byddwn yn parhau i gefnogi pobl LHDTC+ drwy amddiffyn a hyrwyddo eu hawl i chwarae rhan lawn a chydradd mewn cymdeithas yng Nghymru. Nododd ymchwil a wnaed wrth baratoi'r Cynllun Gweithredu hwn bryderon gan bobl anneuaidd a rhyngryw ynglŷn â diffyg cydnabyddiaeth mewn cymdeithas ac o ran sut y cânt eu hadlewyrchu yn y ffordd y mae gwasanaethau yn gweithredu (**Llywodraeth Cymru 2021**). Hefyd, dywedodd pobl draws yng Nghymru wrthym yr hoffent weld Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach na Llywodraeth San Steffan wrth ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl draws. Mae ymchwil i agweddau tuag at bobl draws ym Mhrydain gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn awgrymu bod agweddau negyddol tuag at bobl draws yn cynyddu dros amser o bosibl ymhlith y cyhoedd mewn rhai rhannau o fywyd, gan gynnwys defnyddio llochesi i oroeswyr trais domestig (**Morgan et al.2020**).

## Arferion trosi

Ceir pryder penodol ynglŷn ag ymarfer 'arferion troi' o hyd, a elwir weithiau yn 'therapi trosi'. Defnyddir 'arferion trosi' fel term cyffredinol i ddisgrifio ymyriadau niweidiol eang eu cwmpas, sydd i gyd yn seiliedig ar y camsyniad y gall cyfeiriadedd rhywiol a rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth rhywedd, gael ei newid neu ei reoli. Felly, mae arferion o'r fath wedi'u hanelu'n gyson at sicrhau newid o beidio â bod yn heterorywiol i fod yn heterorywiol a/neu o fod yn draws neu'n rhywedd-amrywiol i fod yn cisryweddol. Yn dibynnu ar y cyd-destun, defnyddir y term am nifer fawr o arferion a dulliau, y mae rhai ohonynt yn ddirgel ac felly na wyddys llawer amdanynt (**y Cyngor Hawliau Dynol 2020)**.

Wrth inni geisio symud tuag at wahardd arferion trosi i'r holl bobl LHDTC+ yng Nghymru, mae'n bwysig deall effaith a chyffredinrwydd arferion trosi ar gymunedau LHDTC+ (**Llywodraeth Cymru 2022d**). Canfu arolwg LHDT Cenedlaethol 2018 fod 4.8% o bobl LHDC+ cisryweddol yng Nghymru wedi cael cynnig arferion trosi ond nad aethant drwy'r broses (**GEO 2018a**), ond bod 2.1% wedi mynd drwy'r broses. Roedd hyn yn uwch i boblogaethau traws, lle roedd 9.0% o ymatebwyr yng Nghymru wedi cael cynnig arferion trosi ond nad oeddent wedi mynd drwy'r broses ac roedd 5.6% arall wedi mynd drwy'r broses. Canfu'r adroddiad, o ran ymatebwyr yn y DU a oedd wedi mynd drwy arferion trosi, fod y rhain wedi cael eu cynnal gan sefydliadau ffydd mewn mwy na hanner yr achosion.

Yn 2020, cynhaliodd Galop, sef elusen sy'n atal camdriniaeth yn erbyn pobl LHDTC+ yn y DU, arolwg o bobl LHDTC+ sydd wedi goroesi ymosodiadau rhywiol yn y DU, gan ganfod bod 23.5% o ymatebwyr wedi nodi bod y cyflawnwr yn 'bwriadu trosi' neu gosbi eu hunaniaeth LHDTC+ (**Galop 2022:t.3**). Roedd y ganran hon yn uwch i bobl arywiol (34.4%), pobl anneuaidd (31.9%), dynion traws (34.7%) a menywod traws (29.6%).

Ni ddefnyddir arferion trosi yn y GIG. Llofnododd GIG Cymru y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wahardd Arferion Trosi (**BACP 2022**), sef cytundeb gan sefydliadau sy'n gweithio ym maes gwasanaethau iechyd meddwl neu seicolegol neu sy'n eu comisiynu, er mwyn ceisio sicrhau nad ydynt yn comisiynu nac yn darparu therapi trosi.

Rydym am i bob person LHDTC+ gael ei drin â'r un gwerth, bod yn ddiogel a byw'n ddiffuant ac yn agored fel nhw eu hunain. Dyna pam mae'r Rhaglen Lywodraethu, a'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, yn nodi y byddwn yn gwahardd pob agwedd ar arferion trosi LHDTC+ sydd o fewn ein pwerau ac yn ceisio datganoli unrhyw bwerau ychwanegol angenrheidiol i'n galluogi i gyflawni hyn. At hynny, byddwn yn ceisio datganoli pwerau mewn perthynas â Chydnabod Rhywedd a chefnogi ein cymuned draws.

Nododd y mwyafrif llethol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad y dylid rhoi terfyn ar arferion trosi sy'n ceisio gorfodi pobl i newid eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu rhywedd. Roedd angen diffiniad clir o arferion trosi er mwyn sicrhau na fyddai trafodaethau dilys na chymorth ynghylch teimladau unigolyn am eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu rhywedd yn cael eu cynnwys mewn unrhyw waharddiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Gweithgor penodol ar Wahardd Arferion Trosi a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru ar y gwaith hwn – a fydd yn cael ei arwain gan yr Is-adran Cyfiawnder Cymdeithasol, Partneriaeth Gymdeithasol, a Chydraddoldeb a Hawliau Dynol.



**Ein camau gweithredu:**

1. Cryfhau dealltwriaeth o hawliau dynol pobl LHDTC+.
2. Helpu pobl LHDTC+ i ddeall yn well sut i fynnu eu hawliau dynol.
3. Gwahardd pob agwedd ar Arferion Trosi LHDTC+.
4. Cryfhau cynrychiolaeth LHDTC+ ar fforymau cydraddoldeb.
5. Cynnwys cymunedau LHDTC+ wrth lunio gwasanaethau cyhoeddus.
6. Cydnabod pobl anneuaidd a phobl ryngryw .
7. Ceisio datganoli pwerau mewn perthynas â Chydnabod Rhywedd.
8. Ymgysylltu'n rhyngwladol i ddangos ein gwerthoedd a'n cymorth i bobl LHDTC+ yng Nghymru ac yn fyd-eang.

## B. Diogelwch a rhyddid rhag gwahaniaethu

### Gweledigaeth: Byddwn yn gwneud Cymru yn lle mwy diogel i bawb sy'n LHDTC+

Drwy deimlo'n fwy diogel yng Nghymru bydd modd i bobl LHDTC+ ffynnu a byw heb ofn, yn eu bywyd personol ac mewn cymdeithas. Mae llawer o bobl LHDTC+ yng Nghymru yn parhau i deimlo'n anniogel ac yn wynebu risg uchel o camdriniaeth neu wahaniaethu (**Stonewall Cymru 2017a**), ac felly mae'n hollbwysig bod camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn ac i geisio gwneud pobl LHDTC+ yng Nghymru yn fwy diogel.

Cyhoeddwyd Ystadegau Troseddau Casineb Cenedlaethol 2021-2022 i Gymru a Lloegr gan y Swyddfa Gartref ym mis Hydref 2022. Mae'r ystadegau yn dangos cynnydd o 35% yn nifer y troseddau casineb a gofnodwyd yng Nghymru o gymharu â 2020-2021 (**Llywodraeth Cymru 2022e**; **Swyddfa Gartref 2022a**). Cofnodwyd 6,295 o droseddau casineb gan y pedwar heddlu yng Nghymru ac o'r rhain:

- roedd 1,329 (21%) yn droseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol
- roedd 247 (4%) yn droseddau casineb ar sail trawsrywedd.

Ar gyfer y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, cofnododd yr heddlu fod troseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol yng Nghymru wedi cynyddu 50% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (o 884 i 1,329) a bod troseddau casineb yn erbyn pobl drawsryweddol (h.y., troseddau casineb ar sail trawsrywedd) wedi cynyddu 43% (o 173 i 247 o achosion) (**Swyddfa Gartref 2021a**; **Swyddfa Gartref 2022a**; **Swyddfa Gartref 2021b: Tabl o'r Atodiad**; **Swyddfa Gartref 2022b: Tabl o'r Atodiad**).

Gall nifer o ffactorau ysgogi troseddau casineb, ac mae'r ystadegau uchod yn nodi'r troseddau hynny lle y cafodd cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd eu cynnwys yn y ffactorau ysgogol a gofnodwyd.

Yn ôl adroddiad "A yw Cymru'n Decach?" (**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018b: t.94**; gweler hefyd **Stonewall Cymru 2017a**) mae'r dystiolaeth o'r sector gwirfoddol yn awgrymu y gall y cynnydd hwn mewn troseddau a gofnodwyd hefyd adlewyrchu cynnydd mewn achosion: yn 2017, roedd 20% o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LHD) yng Nghymru wedi dioddef trosedd neu ddigwyddiad casineb yn ystod y 12 mis blaenorol, o gymharu ag 11% yn 2013; nododd hanner (52%) y bobl draws eu bod wedi dioddef trosedd neu ddigwyddiad casineb yn 2017. Mae hyn yn achos pryder, ond gwyddom hefyd mai canran fach yn unig yw'r rhain, a bod llawer mwy o droseddau casineb yn cael eu cyflawni ac na roddir gwybod amdanynt. Soniodd yr adroddiad hefyd nad oedd y mwyafrif o bobl LHD a thraws a ddioddefodd drosedd neu ddigwyddiad casineb (82%) wedi rhoi gwybod i'r heddlu. Soniodd yr un adroddiad hefyd fod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod wedi goroesi neu wedi dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol na'r boblogaeth ehangach yn 2016/17. Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau cydnabyddedig yn nodi y bydd hyd at 40% o'r boblogaeth LHDTC+ yn profi cam-drin domestig o ryw fath yn ystod eu bywydau, sy'n cynyddu i tua 80% i'r gymuned draws (**Llywodraeth Cymru 2022f**).

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod pobl LHDTC+ ethnig leiafrifol yn wynebu mwy o risg o wahaniaethu. Nodwyd yn yr adroddiad Home and Communities (**Stonewall 2018a**), ym Mhrydain, fod 11% o ymatebwyr LHDTC+ wedi cael eu cam-drin gan eu partner. Cynyddodd hyn i 17% i ymatebwyr LHDTC+ ethnig leiafrifol. Hefyd, nododd 51% o ymatebwyr ethnig leiafrifol bod eraill wedi gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu hethnigrwydd yn eu cymunedau LHDTC+ lleol yn ystod y flwyddyn flaenorol – mae hyn yn cynyddu eto i 61% ar gyfer pobl Ddu.

Er bod y mwyafrif o bobl LHDTC+ yng Nghymru yn byw bywydau boddhaus a chadarnhaol, gwyddom hefyd fod gormod yn byw gydag ofn gwahaniaethu a rhagfarn, ac mae pobl yng Nghymru yn parhau i wynebu

gwahaniaethu gartref ac yn eu priod gymunedau. Nododd bron hanner (46%) yr ymatebwyr i arolwg 2020 Stonewall Cymru a lywiodd adroddiad y Panel Arbenigwyr (**Llywodraeth Cymru 2021c**; **Llywodraeth Cymru 2021d**), eu bod wedi bod yn destun aflonyddu geiriol yn ystod y flwyddyn flaenorol, nododd 26% eu bod wedi bod yn destun cam-drin neu aflonyddu ar-lein a nododd 13% eu bod wedi cael eu bygwth ag aflonyddu a thrais corfforol neu rywiol yn ystod yr un cyfnod. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos faint yn fwy y mae'n rhaid ei wneud i sicrhau bod cartrefi a chymunedau yng Nghymru yn ddiogel i bawb.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod pobl LHDTC+ yn enwedig yn wynebu risg o fynd yn ddigartref (**Llamau 2019**), gyda'r data i'r DU gyfan yn awgrymu bod pobl ifanc LHDTC+ yn cael eu gorgynrychioli o dipyn ymhlith poblogaethau o bobl ifanc ddigartref (**Ymddiriedolaeth Albert Kennedy 2015**). Yn y DU, canfu ymchwil gan Ymddiriedolaeth Albert Kennedy fod pobl ifanc LHDT yn fwy tebygol o fynd yn ddigartref na phobl ifanc heterorywiol a cisryweddol, gan nodi bod pobl ifanc LHDT yn cyfrif am 24% o'r boblogaeth ddigartref. Fodd bynnag, mae bwlch sylweddol o hyd yn y set ddata i Gymru ar ddigartrefedd pobl ifanc a'u nodweddion, ac awgrymodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd fod canfyddiad o risgiau o hyd o ran gwahaniaethu yn y sector rhentu preifat.

Gwyddom fod llawer o wasanaethau sy'n rhoi gofal i bobl sy'n oroeswyr trais neu gamdriniaeth eisoes wedi darparu ar gyfer cynnwys pobl LHDTC+, gan gynnwys anghenion menywod lesbiaidd a menywod traws. Mae'n bwysig bod y gwasanaethau hyn yn parhau, a bod anghenion pobl LHDTC+ sy'n rhoi gwybod am achosion o drais a/neu gamdriniaeth ac sy'n cael gofal ar ôl eu goroesi yn cael eu cydnabod a'u hystyried. Edrychwn ymlaen hefyd at weithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol, yn y gobaith y byddwn yn gallu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn effeithiol a chreu system cyfiawnder troseddol LHDTC+-gynhwysol.

Ysgrifennodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Jane Hutt AS at Lywodraeth y DU i ofyn am i'r argymhelliad gael ei dderbyn mewn perthynas ag estyn y troseddau gwaethygedig sy'n bodoli ar gyfer hil a chrefydd ar hyn o bryd i bob nodwedd arall sydd eisoes yn dod o dan gyfundrefn ddeddfwriaethol troseddau casineb, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd.Byddai hyn yn anfon neges glir bod trosedddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd yn annerbyniol ac y bydd goblygiadau i'r rhai sy'n cyflawni'r gweithredoedd cas hyn. Byddwn yn parhau i ddadlau dros wneud troseddau casineb ar sail LHDTC+ yn droseddau gwaethygedig, a byddwn hefyd yn ceisio cyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i ddadlau dros ddatganoli plismona a chyfiawnder .

## Ein camau gweithredu:

9. Dileu rhwystrau sy'n atal pobl LHDTC+ rhag rhoi gwybod am droseddau casineb.
10. Parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni atal troseddau casineb ledled Cymru .
11. Gwrthsefyll agweddau gwrth-LHDTC+ ar-lein a throseddau casineb.
12. Gwella perthynas cymunedau LHDTC+ â phlismona yng Nghymru.
13. Targedu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ymhlith cymunedau LHDTC+.
14. Sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd yn gynhwysol o ran anghenion penodol pobl LHDTC+.

## C. Cenedl noddfa i geiswyr lloches a ffoaduriaid

### Gweledigaeth: Byddwn yn gwneud Cymru yn Genedl Noddfa i fudwyr LHDTC+

Rydym yn anelu at wneud Cymru'n 'Genedl Noddfa' gyntaf y byd, sy'n dathlu lletygarwch Cymreig a'n hanes o fudo a diogelwch. Yr uchelgais yw ble bynnag yng Nghymru y bydd pobl sy'n ceisio noddfa yn mynd, y bydd croeso, dealltwriaeth a dathliad o'u cyfraniad unigryw i fywyd cyfoethog Cymru.

Credwn fod cytundeb Llywodraeth y DU â Llywodraeth Rwanda i brosesu ceiswyr lloches yn ergyd fawr i ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTC+, sy'n rhoi pobl LHDTC+ mewn perygl mawr o driniaeth wael, gwahaniaethu, arestio mympwyol, a chadw dan orchymyn. Yn asesiad Llywodraeth y DU o effaith y polisi ar gydraddoldeb, tynnwyd sylw at y risgiau gwirioneddol y byddai'r cytundeb hwn yn eu hachosi i bobl LHDTC+ (**Swyddfa Gartref 2022c**). Mae ein gweledigaeth a'n cynllun ar gyfer Cenedl Noddfa yn ymwneud â sicrhau bod Cymru, nid yn unig yn croesawu mudwyr, ond ein bod hefyd yn manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil mudo er mwyn i'n heconomi a'n cymunedau ffynnu. Mae'r bwriad i anfon ceiswyr lloches i Rwanda yn gwbl groes i'r weledigaeth honno.

Mae llawer o geiswyr lloches yn ffoi o'u gwlad eu hunain am eu bod yn cael eu herlid am bwy ydynt a phwy maent yn ei garu, gan ddianc rhag trais a chamdriniaeth o ganlyniad i'w cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth rhywedd (**Mole 2021**; **Dyck 2019**). Felly, mae un o'n camau gweithredu yn canolbwyntio ar bwysigrwydd gweithio gyda Llywodraeth y DU i wella prosesau i adnabod pobl LHDTC+ mewn ffordd sensitif, eu trefniadau diogelu, a mesurau cyfeirio, gan gynnwys drwy wella adnoddau megis y Ffurflen Gais am Gymorth Lloches (Ffurflen ASF1).

Rydym yn ymrwymedig i weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol er mwyn sicrhau bod darpariaethau tai ar gyfer ceiswyr lloches (**Glitter Cymru a DPIA 2022**) a ffoaduriaid LHDTC+ yn diwallu eu hanghenion.

### Ein camau gweithredu:

15. Adnabod, diogelu a chyfeirio pobl LHDTC+ sy'n hawlio lloches.
16. Annog y broses o ddatblygu eiddo i geiswyr lloches LHDTC+ yn unig yng Nghymru.
17. Sicrhau bod Cymru fel Cenedl Noddfa yn parhau i gynnwys pobl LHDTC+.



## D. Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a lles

### Gweledigaeth: Byddwn yn gwella canlyniadau gofal iechyd i bawb sy'n LHDTC+

Mewn lleoliadau gofal iechyd mae pobl LHDTC+ yn teimlo y gallant wynebu triniaeth anghyfartal a gwahaniaethu. Tynnir sylw at enghreifftiau o'r anghydraddoldebau hyn yn yr adroddiad ar Iechyd LHDT (**Stonewall 2018b**). Er enghraifft, mae'r adroddiad yn nodi bod bron un o bob pedwar o bobl LHDTC+ (23%) wedi bod yn dyst i sylwadau gwahaniaethol neu negyddol yn erbyn pobl LHDTC+ gan staff gofal iechyd rywbryd neu'i gilydd. At hynny, gwnaeth 14% o ymatebwyr osgoi triniaeth gofal iechyd oherwydd pryderon y byddai gwahaniaethu yn eu herbyn o ganlyniad i'w hunaniaeth LHDTC+.

Mae ymchwil hefyd wedi dangos nad yw rhai pobl LHDTC+ yn datgelu eu rhywedd/cyfeiriadedd rhywiol i wasanaethau gofal iechyd. Nododd yr Arolwg LHDT Cenedlaethol, o'r sampl o Gymru, fod 50% o bobl LHDTC+ cisryweddol wedi dweud nad oeddent erioed wedi rhannu eu cyfeiriadedd rhywiol â staff gofal iechyd (**GEO 2018b**) yn ystod y 12 mis cyn yr arolwg. At hynny, nododd 19.6% o ymatebwyr traws yng Nghymru yn yr Arolwg LHDT Cenedlaethol fod eu hanghenion penodol yn cael eu hanwybyddu pan oeddent yn defnyddio neu'n ceisio defnyddio gwasanaethau gofal iechyd.

Nododd ymchwil yn Lloegr (**NatCen Social Research et al. 2021**) fod pobl LHD yn fwy tebygol o fod yn smygwyr (27%) o'u cymharu ag oedolion heterorywiol (18%). Cofnodwyd patrymau tebyg o ran cyffredinrwydd yfed alcohol, sef mwy o risg neu risg uwch (32% i oedolion LHD o gymharu â 24% i bobl heterorywiol).

Dengys adroddiadau blaenorol fod pobl anabl LHDTC+ yn parhau i wynebu gwahaniaethu ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol a/neu eu hunaniaeth rhywedd gan y rhai sy'n darparu gofal (**SSCR 2017**). Mae ymchwil i brofiadau pobl LHDTC+ mewn lleoliadau gofal cymdeithasol wedi dangos ei bod wedi'i nodi'n aml nad yw anghenion pobl hŷn bob amser yn cael eu diwallu (**PolicyBristol 2017**; **Hafford-Letchfield et al 2018**).

Daeth sylwadaeth Westwood (**2018**) ar y gamdriniaeth roedd pobl LHDT hŷn yn ei hwynebu i'r casgliad eu bod yn agored i gael eu cam-drin ar lefel sefydliadol yn ogystal â lefel rhyngbersonol. Mae Westwood yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl LHDT hŷn, er eu bod yn cael eu cam-drin ar sail eu rhywedd neu eu cyfeiriadedd rhywiol, yn llai tebygol o roi gwybod am hyn o ganlyniad i'r ymyleiddio cymdeithasol y gallant ei wynebu o bosibl wrth fyw fel person LHDT hŷn.

Mae pob un o'r canfyddiadau hyn yn dangos bod yn rhaid gwneud gwaith i sicrhau bod pobl LHDTC+ yng Nghymru yn teimlo'n ddiogel ac yn ddigon hyderus i droi at y system iechyd a gofal cymdeithasol. Ceir hefyd sawl maes arall lle yr effeithir yn anghymesur ar bobl LHDTC+, megis iselder a defnyddio sylweddau (**Stonewall 2018b**; **Pitman et al 2021**).

Dangosodd data o Arolwg Cenedlaethol Cymru (**Llywodraeth Cymru 2021f**) rhwng 2019-2020 fod pobl LHDTC+ ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n unig (30%) o'u cymharu â'u cymheiriaid heterorywiol (15%). Yn ôl yr adroddiad "A yw Cymru'n Decach?" (**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018b: t.102**), mae unigrwydd, ynysigrwydd a llai o ymdeimlad o berthyn ymhlith rhai o'r problemau mwyaf sylweddol a wynebir gan grwpiau penodol, gan gynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol neu drawsryweddol, a phobl o rai lleiafrifoedd ethnig.

Mae'n rhaid inni weithredu er mwyn deall yr anghymesuriaethau hyn, yn enwedig i bobl drawsryweddol ac anneuaidd, yn well a'u lliniaru. Dylai bod yn drawsryweddol gael ei ddathlu fel rhan werthfawr a phwysig o deuluoedd, cymunedau a chymdeithasau (**AusPATH 2021**; **Sefydliad Iechyd y Byd 2018**). Gall oedi cyn parchu hunaniaeth rhywun neu atal hunaniaeth rhywun rhag cael ei pharchu gael effaith negyddol ar fywyd y person hwnnw (**Ashley 2019**). Mae ymchwil wedi dangos y niweidiau sy'n deillio o oedi cyn trawsnewid, gydag ymchwil yn y DU yn dangos heriau, rhwystredigaeth, a thrawma pobl draws, gan gynnwys pobl ifanc, sydd wedi cael profiad o oedi neu gael eu gwrthod.
Mae tystiolaeth yn dangos effaith gadarnhaol trawsnewid cymdeithasol cyn y glasoed (**Durwood et al. 2021**; **Horton 2022**). Mae ymchwil i blant traws sydd wedi trawsnewid yn gymdeithasol wedi dangos iechyd meddwl

a chanlyniadau llesiant cadarnhaol (**Durwood et al., 2017**; **Olson et al. 2016**). Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn atgyfnerthu ymchwil ôl-weithredol i niwed i iechyd meddwl os gwrthodir hunaniaeth plentyn yn ystod ei blentyndod, a ddaw o ymchwil i oedolion traws a phobl ifanc draws (**Katz-Wise et al. 2018**; **Klein a Golub 2016**; **Pollitt et al. 2021**; **Russell et al. 2018**; **Simons et al. 2013**; **Travers et al. 2012**; **Wallace a Russell 2013**).

Er bod gan Gymru ei wasanaeth rhywedd ei hun, dim ond darpariaeth i oedolion ydyw. Yn syml: nid oes unrhyw wasanaethau rhywedd i blant na phobl ifanc drawsryweddol yng Nghymru. Felly, maent yn aml yn cael eu cyfeirio at wasanaethau yn Lloegr. Mae adroddiad arolygu ar wasanaethau hunaniaeth rhywedd (**Comisiwn Ansawdd Gofal 2019**) wedi canfod bod Gwasanaethau Rhywedd i bobl ifanc yn annigonol o hyd yn Lloegr, gan ddweud *"The service was difficult to access. There were over 4600 young people on the waiting list. Young people waited over two years for their first appointment"*. Mae'r ymchwil a grybwyllwyd ymhlith y rhesymau lu sy'n ein hannog i wneud rhagor a pharhau i ddatblygu ein gwasanaethau rhywedd i oedolion yng Nghymru, ac ystyried opsiynau ar gyfer datblygu gwasanaeth rhywedd i bobl ifanc yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu ar sail tystiolaeth ac ymgysylltu â phobl ifanc, defnyddwyr gwasanaethau, a rhanddeiliaid.

Yn unol â Cham Gweithredu 18, Gweithgaredd 18.4 o'r Cynllun hwn (gweler isod), ein huchelgais yw y caiff canlyniadau iechyd cyffredinol a phrofiadau pobl draws ac anneuaidd eu hystyried ar bob cam o'r broses ailbennu rhywedd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, sgrinio rhag canser a darpariaethau iechyd rhywiol.

## Ein camau gweithredu:

18. Deall a gwella profiad pobl LHDTC+ yn y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol.
19. Sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a ffrwythlondeb yn hygyrch ac yn syml i'w defnyddio i bobl LHDTC+.
20. Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r strategaeth iechyd meddwl newydd yn ystyried pobl LHDTC+.
21. Cyhoeddi Cynllun Gweithredu HIV newydd a gweithredu arno.
22. Goresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl LHDTC+ rhag defnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol.
23. Adolygu'r llwybr Datblygiad Hunaniaeth Rhywedd i bobl ifanc yng Nghymru.
24. Parhau i ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru.
25. Gwella'r ffordd y cofnodir data a newid prosesau ar gyfer cynnal cofnodion meddygol pobl draws, anneuaidd a rhyngryw.

# E. Addysg gynhwysol

## Gweledigaeth: Byddwn yn darparu addysg sy'n LHDTC+-gynhwysol ledled Cymru

Yn 2017, edrychodd y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ar amrywiaeth eang o ymchwil genedlaethol a rhyngwladol (**Renold and McGeeney 2017a**; **2017b**). Un o ganfyddiadau allweddol y panel oedd bod bwlch rhwng profiadau bywyd plant a phobl ifanc o gydberthnasoedd a rhywioldeb a chynnwys darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Noda ymchwil yn Adroddiad Ysgol Cymru (**Stonewall Cymru 2017b**) nad yw 58% o fyfyrwyr LHDT yng Nghymru wedi cael eu haddysgu am faterion LHDT, nad oedd 84% erioed wedi cael eu haddysgu am ddeurywioldeb ac nad oedd 87% erioed wedi cael eu haddysgu am bobl drawsryweddol na rhyweddau eraill. Fodd bynnag, cafwyd newidiadau yn ddiweddar. Yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022 daeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb briodol yn ddatblygiadol yn orfodol i bob dysgwr. Bydd y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn anelu at sicrhau y 'gall y dysgwyr i gyd weld eu hunain, eu teuluoedd, eu cymunedau a'i gilydd yn cael eu hadlewyrchu ym mhob rhan o'r cwricwlwm a dysgu sut i werthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth fel ffynhonnell cryfder' (**Hwb Llywodraeth Cymru 2022**).

Mae gan ysgolion a lleoliadau rôl bwysig i'w chwarae i greu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau cadarnhaol, iach a diogel drwy gydol eu bywydau. Rydym yn galluogi addysg fwy cynhwysol, drwy ymrwymo i roi canllawiau cenedlaethol i ysgolion erbyn haf 2023 er mwyn helpu ysgolion i gefnogi disgyblion trawsryweddol i'r eithaf.

Nododd y canfyddiadau o arolwg dros y DU gyfan gan *Just Like Us* (**Milsom 2021**) mai dim ond 58% o fyfyrwyr LHDTC+ a ddywedodd eu bod yn teimlo'n ddiogel bob dydd yn yr ysgol yn ystod y 12 mis blaenorol – o gymharu â'r ffigur uwch o 73% i fyfyrwyr nad oeddent yn LHDT. Hefyd, dywedodd 43% o fyfyrwyr LHDT+ eu bod yn cael eu bwlio, o gymharu ag 21% o fyfyrwyr nad oeddent yn LHDT.

Nododd Adroddiad Ysgol Cymru (**Stonewall 2017a**), ymhlith myfyrwyr 11-19 oed yng Nghymru, fod 54% o fyfyrwyr LHDT gan gynnwys 73% o fyfyrwyr traws yn cael eu bwlio yn yr ysgol ynglŷn â'u cyfeiriadedd rhywiol neu eu rhywedd. At hynny, nododd yr adroddiad fod 60% o ymatebwyr yn clywed iaith homoffobig yn yr ysgol 'yn gyson' neu 'yn aml', bod 49% wedi nodi eu bod yn clywed iaith ddeuffobig a bod 51% wedi nodi eu bod yn clywed iaith drawsffobig.

Yn ôl adroddiad "A yw Cymru'n Decach?" (**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018: t.25**), mae'r rhai ag anghenion arbennig neu anabledd, disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol, a'r rhai o gefndir ethnig lleiafrifol neu grefyddol yn wynebu risg benodol o gael eu bwlio; mae seiberfwlio hefyd yn cynyddu (**Estyn 2014**).

Mae ysgolion yn lleoedd lle y dylai dysgwyr deimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Mae unrhyw fath o fwlio neu aflonyddu rhywiol yn gwbl annerbyniol.

Rydym am weld terfyn ar bob math o fwlio. Nod ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r mater hwn yw sicrhau bod pobl ifanc LHDTC+ yn deall sut i gael cymorth ac yn magu'r hyder i herio bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu.

## Ein camau gweithredu:

26. Rhoi canllawiau cenedlaethol ar faterion traws i ysgolion ac awdurdodau lleol.

27. Cefnogi pobl ifanc LHDTC+ a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig, a thrawsffobig.

28. Llunio dull gweithredu ysgol gyfan sy'n gwbl LHDTC+-gynhwysol a'i roi ar waith.

29. Sicrhau bod pob coleg a phrifysgol yng Nghymru yn amgylcheddau LHDTC+-gynhwysol i ddysgwyr, myfyrwyr, a staff.



## F. Cymunedau, bywyd preifat a bywyd teuluol

### Gweledigaeth: Byddwn yn gwella cynhwysiant a chyfranogiad i bobl LHDTC+ ym mhob rhan o fywyd

Mae Cymru yn wlad o gymunedau, ieithoedd, hunaniaethau a diwylliannau amrywiol. Dylai fod modd i bawb, ni waeth beth fo'u hunaniaeth neu ble maent yn byw, gael ymdeimlad o berthyn i'w cymunedau ac i Gymru. O gymunedau gwledig a threfol i gymunedau ffydd, diwylliant a'r celfyddydau.

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru (**2021f**), yn 2018-19 cytunodd 72.4% o oedolion yng Nghymru eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol. Fodd bynnag, roedd pobl sy'n uniaethu â bod yn hoyw, yn lesbiaidd, neu'n ddeurywiol (63.2%) yn llai tebygol o gytuno na'r rhai a oedd yn uniaethu â bod yn heterorywiol/strêt (72.6%). Er enghraifft, roedd pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol a thrawsrywiol yng Nghymru yn dal i gael eu trin yn wael yn ystod eu bywydau pob dydd. Bydd cefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd yn rhan allweddol o wella cynhwysiant a chyfranogiad i bobl LHDTC+. Drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol, yn enwedig mewn rhannau gwledig o Gymru ac mewn ardaloedd lle siaredir y Gymraeg fel y brif iaith, bydd hynny'n helpu pawb sy'n LHDTC+ i gael ymdeimlad o berthyn. Rydym yn cydnabod yr effaith y mae digwyddiadau fel Eisteddfod Genedlaethol Cymru a'i phartneriaeth Mas ar y Maes, ac eraill, wedi'i chael. Ein huchelgais yw sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu yn y ffordd y caiff diwylliant LHDTC+ ei gynrychioli.

Bydd angen mwy o ymchwil er mwyn deall y materion gwledig a rhanbarthol yng Nghymru a wynebir gan bobl LHDTC+.

Rydym eisoes wedi dechrau rhoi cyllid i ddigwyddiadau Pride lleol a byddwn yn parhau i gefnogi grwpiau lleol Pride. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd arbennig y digwyddiadau hyn o ran creu ymdeimlad o gynhwysiant a chymuned.

Lansiwyd "Cais am Dystiolaeth" yn ddiweddar i rannu safbwyntiau ynglŷn â sut i drin cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yr effeithiwyd arnynt gan y gwaharddiad ar gyfunrhywiaeth yn y lluoedd arfog cyn 2000 (**LGBT Veterans Independent Review 2022**). Bydd yr adolygiad yn ystyried profiadau cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n LHDTC+ a'u teuluoedd cyn y gwaharddiad a'r effaith ar eu bywydau. Daeth y 'Cais am Dystiolaeth' i ben ar 1 Rhagfyr 2022 ac ni fydd y canlyniadau llawn yn hysbys am beth amser eto. Fodd bynnag, mae rhai o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau yn y cynllun hwn yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion a'r pryderon hyn. Bydd swyddogion yn adolygu canlyniadau'r Cais am Dystiolaeth pan fyddant ar gael ac yn ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach o ganlyniad iddynt. Fel cefndir, cyn 2000 ystyriwyd bod gweithredoedd cyfunrhywiol yn drosedd pe ceid rhywun yn euog o dan Ddeddf y Fyddin 1955, Deddf yr Awyrlu 1955, a Deddf Disgyblaeth y Llynges 1957. Cafodd gweithredoedd cyfunrhywiol rhwng oedolion eu dad-droseddoli o dan adran 1(1) o Ddeddf Troseddau Rhywiol 1967 (diwygio'r gyfraith a oedd yn ymwneud â gweithredoedd cyfunrhywiol yn breifat), a ddiddymwyd gan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 adrannau 139, 140, Atodlen 6, paragraff 15(a), Atodlen 1, yn weithredol o 1 Mai 2004.

**Ein camau gweithredu:**

30. Cefnogi bywydau teuluol pobl LHDTC+.
31. Cefnogi'r sector gwaith ieuenctid LHDTC+.
32. Cefnogi deialog agored rhwng grwpiau ffydd a phobl LHDTC+.
33. Sicrhau bod gwasanaethau cymorth Cymraeg ar gael i siaradwyr Cymraeg LHDTC+.
34. Rhoi cymorth i bobl ifanc LHDTC+ gymryd rhan mewn democratiaeth, gan gynnwys sefyll am swyddi etholedig.
35. Cefnogi sefydliadau Pride ledled Cymru.
36. Defnyddio digwyddiadau ymwybyddiaeth o faterion LHDTC+ er mwyn cryfhau llais pobl LHDTC+.
37. Cefnogi cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n LHDTC+.



## G. Cymryd rhan ym mywyd Cymru: diwylliant a chwaraeon

### Gweledigaeth: Byddwn yn gwella cynhwysiant a chyfranogiad i bobl LHDTC+ ym mhob rhan o fywyd

Mae hanes, diwylliant, a threftadaeth LHDTC+ Cymreig yng Nghymru wedi cyfrannu at ein gwaddol a'n profiadau fel cenedl – ac mae angen i'r straeon hyn gael eu hadrodd. Dros y degawd diwethaf, mae'r gwaith o arddangos cyfeiriadeddau rhywiol a rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth a mynegiant rhywedd, mewn hanes, llenyddiaeth a threftadaeth, wedi cynyddu'n fawr, fel y profwyd gan ymdrech Amgueddfa Cymru a Queer Britain i arddangos ac archifo straeon a phrofiadau LHDTC+. Fodd bynnag, mae diffyg cynefindra, gwybodaeth a diddordeb yn y pwnc o hyd (**Llywodraeth Cymru 2021g**).

Rydym hefyd yn ymwybodol bod rhai o'r bobl greadigol fwyaf talentog yn y byd yma yng Nghymru. Drwy Cymru Greadigol, rydym am hyrwyddo amgylchedd lle mae modd meithrin talent o bob cymuned, gan gynnwys cymunedau LHDTC+, drwy ddatblygu sgiliau a lle y gall diwydiannau creadigol barhau i dyfu. Felly, rydym yn argymell y dylid darllen y Cynllun Gweithredu hwn ochr yn ochr â *Blaenoriaethau ar gyfer Sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru* (**Llywodraeth Cymru 2020d**) a'r Cynllun Sgiliau Creadigol tair blynedd newydd (2022-2025) sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad y *Rhaglen Lywodraethu* i sefydlu Corff Sgiliau Creadigol (**Llywodraeth Cymru 2022g**).

Mae chwaraeon hefyd yn elfen bwysig o fywyd yng Nghymru. Yn ddiweddar, mae gwahanol gyrff chwaraeon rhyngwladol a domestig wedi cyhoeddi polisïau nad ydynt yn cynnwys pobl draws yn gyfan gwbl, yn enwedig menywod traws. Mae perygl y bydd gwaharddiad llwyr ar bobl drawsryweddol ac anneuaidd yn anfon neges anghywir i bobl ifanc draws na allant gael yr un cyfleoedd â'u ffrindiau na phlant eraill, ac i bob person ifanc bod yn rhaid iddynt ymgyflwyno mewn ffordd benodol er mwyn cael eu parchu am bwy ydynt – sydd â goblygiadau ehangach.

Mae chwaraeon yn amrywiol eu natur, ac mae dull unffurf o ymdrin â mater cymhleth iawn yn heriol. Mae'n amlwg bod cefnogaeth gyffredinol i sicrhau bod croeso i bawb ym myd chwaraeon, gan gynnwys pobl drawsryweddol. Mae ein safbwynt ynglŷn â chynhwysiant mewn chwaraeon yn glir: hawliau dynol yw hawliau LHDTC+, gan gynnwys hawliau traws – ac fel y dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, ein man cychwyn yw bod menywod trawsryweddol yn fenywod (**Senedd Cymru 2022b**). Dylai chwaraeon fod i bawb, lle y gall pawb gymryd rhan a lle y caiff pawb ei drin â charedigrwydd, urddas, a pharch. Mae'n rhaid inni weithio'n galed i chwilio am gyfleoedd i gynnal deialog, dod o hyd i ffyrdd o hyrwyddo dealltwriaeth yn hytrach na gwrthdaro, a dangos parch yn hytrach nag ystyried allgáu.

### Ein camau gweithredu:

38. Gwella cynrychiolaeth, cynhwysiant, a chyfranogiad pobl LHDTC+ ym myd chwaraeon.

39. Gwella mynediad a chyfranogiad pobl drawsryweddol ym myd chwaraeon.

40. Dathlu a gwella cynrychiolaeth cymunedau LHDTC+ yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru.

41. Cael mwy o gyfranogiad gan bobl a sefydliadau LHDTC+ wrth lunio trefniadau a gweithgareddau diwylliannol.

## H. Gweithleoedd cynhwysol

### Gweledigaeth: Byddwn yn gwella cynhwysiant a chyfranogiad i bobl LHDTC+ ym mhob rhan o fywyd

Er bod sefydliadau yn ymfalchïo'n fwyfwy yn eu hymrwymiad i staff, cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau LHDTC+, erys cryn wahaniaethu yn y gweithle o hyd. Nododd yr Arolwg LHDT Cenedlaethol fod 22.4% o ymatebwyr yng Nghymru wedi cael ymateb anffafriol yn y gweithle oherwydd eu rhywedd neu eu cyfeiriadedd rhywiol neu'r canfyddiad eu bod yn LHDT (**GEO 2017**). Hefyd, nododd 11.1% eu bod wedi bod yn destun sylwadau neu ymddygiad 'amhriodol' a nododd 9.3% achosion o aflonyddu geiriol. Nododd data 2019-2020 o Arolwg Cenedlaethol Cymru (**Llywodraeth Cymru 2021f**) fod 19% o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi cael eu bwlio yn y gweithle yn ystod y flwyddyn cyn cymryd rhan yn yr arolwg. Mae hyn yn cymharu ag 11% o bobl heterorywiol. At hynny, nododd 20% o bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol eu bod wedi bod yn destun gwahaniaethu yn eu gweithle yn ystod y 12 mis diwethaf, o gymharu â 10% o bobl heterorywiol.

Dangosodd adroddiad Work (**Stonewall 2018c**) fod mwy na thraean o staff LHDT (35%) yn cuddio'r ffaith mai LHDT oeddent yn y gweithle rhag ofn y byddai eraill yn gwahaniaethu yn eu herbyn; roedd un o bob deg cyflogai Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (10%) wedi bod yn destun ymosodiad corfforol gan gwsmeriaid neu gydweithwyr yn ystod y flwyddyn flaenorol; ac nid oedd bron ddau o bob pum person deurywiol (38%) wedi dod allan i unrhyw un yn y gweithle.

Mae amlygrwydd y nenfwd wydr yn y gweithle i reolwyr hoyw a lesbiaidd yn ffenomenon a welir o hyd yn y DU (**Frank 2006**; **Aksoy et al. 2019**). Mae'r ymchwil ddiweddar a hanesyddol yn awgrymu bod "lleiafrifoedd rhywiol" yn llai tebygol o fod mewn uwch swyddi rheoli o gymharu â'u cymheiriaid heterorywiol ac awgrymir bod hyn i'w briodoli i gydnabyddiaeth wahaniaethol i reolwyr hoyw a lesbiaidd o gymharu â'u cymheiriaid heterorywiol am eu haddysg a'u sgiliau ychwanegol.

Mewn arolwg a grwpiau ffocws a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn (**Llywodraeth Cymru 2021c**), canfuwyd, er i 45% o bobl nodi mai ymateb cadarnhaol yn unig a gafwyd gan gydweithwyr yn y gweithle pan oeddent yn ymwybodol eu bod yn LHDTC+, fod 24% wedi nodi bod eu hunaniaeth LHDTC+ wedi cael ei datgelu mewn ffordd annerbyniol yn y gweithle ('outing') a bod 10% wedi dweud eu bod wedi cael profiad o aflonyddu geiriol. Mae angen i hyn newid; mae hapusrwydd yn y gweithle yn bwysig. Mae'n gwella iechyd gweithwyr, yn arwain at well cydberthnasau gwaith, a gall roi hwb i greadigrwydd a chynhyrchiant. Mae gweithleoedd yng Nghymru wedi gwella, ond eto mae angen inni fynd ymhellach er mwyn dileu gwahaniaethu a grymuso pawb sydd mewn swydd i fod yn nhw eu hunain, yn ogystal â hyrwyddo'r effaith gadarnhaol y gall amrywiaeth ei chael mewn pob math o sefydliad.

### Ein camau gweithredu:

42. Dileu prosesau adnabod personol diangen mewn arferion recriwtio.

43. Rhoi hyfforddiant ar gydraddoldebau sy'n cynnwys anghenion pobl LHDTC+ i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus.

44. Annog cyflogwyr yn y sector preifat i fod yn LHDTC+-gynhwysol.

## I. Effaith COVID-19

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ymhlith cymunedau LHDTC+ yng Nghymru. Yn fwy cyffredinol yn y DU, mae arolygon ar-lein wedi awgrymu bod pobl LHDTC+ wedi profi anghydraddoldebau drwy gydol COVID-19. Er enghraifft, mae adroddiad LGBTQ+ Lockdown Wellbeing LGBT Hero (**2020**) yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl LHDTC+ wedi dweud eu bod wedi profi cyfraddau uchel o drais a chamdriniaeth yn ystod y cyfyngiadau symud. Nodwyd hyn yn benodol gan bobl ifanc, ond hefyd gan bobl draws a rhywedd-amrywiol a nododd ddwywaith gymaint o drais a chamdriniaeth yn ystod y cyfyngiadau symud na phobl cisryweddol. Mae'r adroddiad yn nodi, o'i sampl o LHDTC+, fod 15% wedi dweud eu bod wedi profi trais neu gamdriniaeth yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd y ffigur hwn fwy na dwywaith yn uwch i bobl Ddu a De Asiaidd LHDTC+ o'u cymharu â'u cymheiriaid gwyn. Hefyd, nododd yr adroddiad fod 79% o'i sampl yn y DU wedi dweud bod cyfyngiadau symud COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl.

Mae adroddiad gan LGBT Foundation (**2020**) yn nodi bod 30% o'r ymatebwyr LHDT yn y DU yn byw ar eu pen eu hunain yn ystod y pandemig – mae pobl LHDT hŷn yn fwy tebygol o fod wedi byw ar eu pen eu hunain drwy gydol y pandemig, gyda 40% o bobl 50 oed a hŷn yn nodi hyn. At hynny, nododd yr adroddiad nad oedd 8% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu trefniadau byw pan wnaethant ymateb i'r arolwg yn ystod y cyfyngiadau symud. Nid yw'r profiad hwn yr un fath ym mhob cymuned LHDTC+ oherwydd ymhlith pobl LHDT ethnig leiafrifol gwelwyd canran o 9%, a 15% ymhlith pobl anabl LHDT, 17% ymhlith pobl draws a 17% ymhlith pobl anneuaidd.

Mae'n hollbwysig casglu a deall data yn gyntaf, er mwyn llwyr werthfawrogi'r effeithiau hyn a nodi a blaenoriaethu camau gweithredu i leihau effaith bresennol pandemig COVID-19 a'i effaith yn y dyfodol – a phandemigau posibl yn y dyfodol – ar gymunedau LHDTC+ sy'n byw yng Nghymru.

### Ein camau gweithredu:

45. Wrth gynllunio ymateb adfer ar ôl COVID-19 a'i roi ar waith, ystyried profiadau pobl LHDTC+, yn enwedig yr effaith ar iechyd meddwl.

46. Cynnal ymchwiliad trylwyr i'r ffordd y mae pandemig y Coronafeirws wedi effeithio ar bobl LHDTC+, yn enwedig pobl ifanc LHDTC+ a phobl anabl LHDTC+, yng Nghymru.



# Cynllun Gweithredu LHDTC+: Camau gweithredu a dangosyddion perfformiad allweddol

Bydd y tabl canlynol yn egluro beth rydym am ei gyflawni a sut y byddwn yn ei gyflawni. Bydd hefyd yn rhoi trosolwg o'r effaith a'r newidiadau rydym yn gobeithio eu sicrhau. Bydd pob cam gweithredu yn cael ei gysylltu â pherchnogion neu arweinwyr penodol a bydd yn dangos amserlen ar gyfer eu cyflawni a'u gweithredu. Mae'r derminoleg ganlynol wedi cael ei defnyddio ym mhenawdau'r colofnau ar gyfer yr adran hon, a dyma'r sail dros fesur ein perfformiad:

- **Cam gweithredu:** mae'n cynrychioli'r hyn rydym yn anelu at ei gyflawni neu ein huchelgeisiau.
- **Gweithgareddau:** dyma'r camau neu'r camau gweithredu ymarferol sy'n dangos sut y byddwn yn cyflawni ein huchelgais neu ein nod.
- **Canlyniad:** yr effaith rydym yn disgwyl ei weld.
- **Amserlen:** terfynau amser sy'n nodi pryd y byddwn yn ymgymryd â'r gweithgareddau awgrymedig: yn barhaus, yn y tymor byr, y tymor canolig, neu'r tymor hir – lle mae "tymor hir" yn cyfeirio at derfyn amser hyd at ddiwedd y Senedd bresennol.
- **Perchnogion y cam gweithredu:** pwy fydd yn arwain neu'n helpu i gyflawni'r camau gweithredu.



## A. Hawliau Dynol a Chydnabyddiaeth

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cryfhau dealltwriaeth o hawliau dynol pobl LHDTC+** | Cyhoeddi pecyn cymorth o adnoddau Hawliau Dynol LHDTC+, a arweinir gan gymdeithasau sifil LHDTC+. | Sicrhau mwy o wybodaeth ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol am hawliau dynol pawb sy'n LHDTC+. | Tymor canolig | Cymdeithasau sifil LHDTC+<br>Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |
| 2 | **Helpu pobl LHDTC+ i ddeall yn well sut i fynnu eu hawliau dynol** | Rhannu adnoddau sy'n ymwneud â diogelu hawliau dynol i bobl LHDTC+, ymyrryd â'u hawliau dynol a gwneud iawn am hynny. | Mae adnoddau a gwasanaethau ar gael i bobl LHDTC+ er mwyn ymdrin ag achosion o ymyrryd â'u hawliau dynol. | Tymor hir | Cymdeithasau sifil LHDTC+<br>Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |
| 3 | **Gwahardd pob agwedd ar Arferion Trosi LHDTC+** | Sefydlu gweithgor i ystyried cyffredinrwydd ac effaith arferion trosi yng Nghymru, a chyngori ar ymgyrchoedd.<br>Lansio ymgyrch i dynnu sylw at y niwed y mae arferion trosi yn ei achosi, yn ogystal â thynnu sylw at wasanaethau cymorth i oroeswyr.<br>Cwblhau prosiect ymchwil i brofiad goroeswyr arferion trosi yng Nghymru.<br>Cael cyngor cyfreithiol ar ddulliau gweithredu polisi a chyfreithiol i wahardd arferion trosi yng Nghymru.<br>Defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i wahardd pob agwedd ar arferion trosi LHDTC+ yng Nghymru a cheisio datganoli unrhyw bwerau ychwanegol angenrheidiol (**Llywodraeth Cymru 2021a**).<br>Ceisio cyflwyno deddfwriaeth i wahardd arferion trosi yng Nghymru. | Gwella mynediad at wasanaethau cymorth i oroeswyr.<br>Lleihau nifer y bobl LHDTC+ sydd wedi cael profiad o arferion trosi yng Nghymru.<br>Mae'r cyhoedd yn fwy ymwybodol o gyffredinrwydd a pheryglon arferion trosi. | Tymor canolig a thymor hir | Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru<br>Gweithgor Llywodraeth Cymru ar Wahardd Arferion Trosi<br>Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd/Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran "Data ac Ymchwil") |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Cryfhau cynrychiolaeth LHDTC+ ar fforymau cydraddoldeb** | Gwella cynrychiolaeth LHDTC+ ar Fforymau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru.<br>Monitro cynhwysiant croestoriadol Fforymau Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru. | Mae lleisiau LHDTC+ yn cael eu clywed, ac ymdrinnir ag ystyriaethau croestoriadol. | Tymor canolig | Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |
| 5 | **Cynnwys cymunedau LHDTC+ yn y gwaith o lunio gwasanaethau cyhoeddus** | Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys pobl LHDTC+ yn y gwaith o lunio gwasanaethau fel mater o drefn, yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Strategol.<br>Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Strategol yn ymdrin â chynnwys cymunedau LHDTC+ mewn gwaith cynllunio strategol.<br>Adolygu rheoliadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a'r broses adrodd. | Mae cymunedau LHDTC+ yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ym mywyd cyhoeddus Cymru.<br>Mae'r adolygiad o reoliadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried ac yn cynnwys pobl LHDTC+ a'u hanghenion. | Yn barhaus | Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru<br>Awdurdodau Lleol<br>CLlLC<br>Cyrff cyhoeddus |
| 6 | **Cydnabod pobl anneuaidd a phobl ryngryw** | Ym mhob maes polisi datganoledig, adolygu iaith polisïau a chanllawiau er mwyn iddynt fod yn sensitif i iaith ryweddol a dynodwyr rhywedd.<br>Mewn meysydd polisi nas datganolwyd, dechrau sgyrsiau â Llywodraeth y DU gyda'r nod o weithredu proses o adnabod pobl anneuaidd ar basbortau a thrwyddedau gyrru (e.e., dynodwr rhywedd X). | Mae anghenion pobl anneuaidd a rhyngryw yn cael eu nodi a'u diwallu mewn gwasanaethau cyhoeddus.<br>Mae Llywodraeth Cymru a'i chyhoeddiadau yn defnyddio iaith gynhwysol.<br>Mae pobl anneuaidd a rhyngryw yn cael eu cydnabod a'u dilysu'n gyhoeddus. | Tymor canolig | Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 | **Ceisio datganoli pwerau mewn perthynas â Chydnabod Rhywedd** | Dechrau cyd-drafod â Llywodraeth y DU, a gwneud cais i ddatganoli pwerau ynglŷn â Chydnabod Rhywedd.<br>Nodi ffyrdd o gefnogi'r rhai sy'n gwneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd yng Nghymru. | Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'n cymunedau traws yn weladwy.<br>Mae'r pwerau perthnasol yn cael eu datganoli.<br>Mae pobl draws yn cael cymorth i gael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd. | Tymor byr | Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |
| 8 | **Mae ymgysylltu rhyngwladol yn dangos ein gwerthoedd a'n cymorth i bobl LHDTC+ yng Nghymru ac yn fyd-eang.** | Ystyried sut i fabwysiadu dull caffael cynhwysol sy'n lleihau ac yn dileu'r rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig sy'n atal cyflenwyr amrywiol rhag ymgynnig am gontractau Llywodraeth Cymru.<br>Ystyried sut i bennu targedau ystyrlon yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir er mwyn cynyddu amrywiaeth ymhlith cadwyni cyflenwi Llywodraeth Cymru. Fel cam cyntaf, byddwn yn dadansoddi cadwyni cyflenwi Llywodraeth Cymru i ganfod lefel bresennol amrywiaeth cyflenwyr.<br>Arddangos ein gwerthoedd yng Nghymru fel cenedl sy'n gyfeillgar i bobl LHDTC+ ar lwyfan ehangach drwy ymgysylltu diplomyddol a'n rhwydwaith tramor, gan gynnwys gyda gwledydd nad ydynt o reidrwydd yn rhannu'r safbwyntiau hyn, ac adolygu'n rheolaidd y ffordd rydym yn gweithredu.<br>Gweithio gyda Map Enfys ILGA-Europe o ran safleoedd LHDTC+-gynhwysol yn Ewrop er mwyn tynnu sylw at safle Cymru fel rhan o'r dadansoddiad ehangach o'r DU: sicrhau bod Cymru yn cael ei chynrychioli'n fanylach yn yr Adolygiad Blynyddol.<br>Codi pwysigrwydd hawliau LHDTC+ pan fyddwn yn ymgysylltu'n rhyngwladol a gweithio gyda gwledydd neu sefydliadau rhynglywodraethol eraill i wella bywydau pobl LHDTC+ ledled y byd. | Mae Cymru yn cael ei gweld fel cenedl sy'n gyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop ac yn fyd-eang.<br>Mae cysylltiadau rhyngwladol ac arferion caffael Cymru yn adlewyrchu ei nod o fod yn genedl sy'n gyfeillgar i bobl LHDTC+. | Yn barhaus – i'w adolygu'n flynyddol | Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru<br>Cyfarwyddiaeth Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru |

## B. Diogelwch a rhyddid rhag gwahaniaethu

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Dileu rhwystrau sy’n atal pobl LHDTC+ rhag rhoi gwybod am droseddau casineb** | Gweithio gyda Phlismona yng Nghymru i ystyried a gwella gweithdrefnau’r heddlu a chanllawiau i swyddogion ynglŷn â throseddau casineb.<br>Parhau â’r sgyrsiau ar ddosbarthu troseddau casineb yn erbyn pobl LHDTC+.<br>Casglu tystiolaeth gan gymunedau LHDTC+ o brofiadau cadarnhaol a negyddol wrth roi gwybod am droseddau casineb a deall unrhyw rwystrau sy’n atal pobl rhag rhoi gwybod amdanynt. Gan ddefnyddio’r dystiolaeth hon, cefnogi gwaith y Bwrdd Tensiynau Cymunedol i roi adborth i’r heddluoedd yng Nghymru.<br>Adolygu’r ystadegau ynglŷn ag amrywiaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru a roddir i’r Grŵp Llywio ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bob blwyddyn, er mwyn deall a gwella cyfansoddiad y gweithlu hwn, i fod yn gynrychioliadol o gymunedau LHDTC+. | Gwella lefelau rhoi gwybod am droseddau casineb ar sail LHDTC+ a lefelau cofnodi.<br>Mae pobl LHDTC+ yn hyderus i roi gwybod am droseddau casineb.<br>Gweithlu mwy cynrychioliadol ac amrywiol o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac yn gyffredinol mewn heddluoedd yng Nghymru, gan ennyn mwy o ymddiriedaeth yn y gwasanaeth ymhlith pobl LHDTC+. | Tymor hir | Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid, ynghyd â phartneriaid eraill ym maes cyfiawnder troseddol a chyfiawnder cymdeithasol<br>Tîm Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru, gan weithio’n agos gyda Phlismona yng Nghymru<br>Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd/Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran “Data ac Ymchwil”) |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | **Parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni atal troseddau casineb ledled Cymru** | Lansio fersiwn ddiwygiedig o ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru, gyda ffocws ar weithio gyda phobl a sefydliadau LHDTC+, yn enwedig o ran casineb ac aflonyddu yn erbyn pobl drawsryweddol a phobl anneuaidd. | Codi ymwybyddiaeth o ystyr trosedd casineb, sut i roi gwybod am drosedd casineb, a'r cymorth a'r gwasanaeth eiriolaeth sydd ar gael i bobl LHDTC+ drwy Ganolfan Cymorth Casineb Cymru.<br>Mwy o ddealltwriaeth o'r ffyrdd gwahanol o roi gwybod am drosedd casineb, yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r heddlu.<br>Dangosir i unigolion a allai gyflawni troseddau casineb o bosibl ganlyniadau troseddau casineb, ar eu bywydau eu hunain a bywydau'r dioddefwyr. | Yn barhaus | Tîm Cydlyniant Cymunedol a Throseddau Casineb Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **11** | **Gwrthsefyll agweddau gwrth-LHDTC+ ar-lein a throseddau casineb** | Mae "Hawliau, parch, cydraddoldeb – canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir" yn cynnwys bygythiadau digidol a rhagfarn a fynegir ar-lein, gan gynnwys bwlio ac ymddygiad ymosodol ar-lein.<br>Mae ymgyrch 'Mae Casineb yn Brifo Cymru' yn cynnwys enghreifftiau o gasineb ar-lein ac yn dangos ffyrdd clir o roi gwybod am gasineb ar-lein i oroeswyr ac unigolion wedi'u targedu.<br>Diweddaru adnoddau "HWB", y llwyfan dysgu ac addysgu digidol i ysgolion yng Nghymru, a'r adrannau "cadw'n ddiogel ar-lein" er mwyn mynd i'r afael â diogelwch ac adnoddau ar-lein.<br>Helpu ysgolion i roi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb orfodol ar waith lle mae diogelwch ar-lein yn un o'r nodweddion allweddol.<br>Rhoi dirnadaethau ynglŷn ag anghenion penodol pobl LHDTC+ er mwyn i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar y Bil Diogelwch Ar-lein cyfredol. | Sicrhau mwy o ddealltwriaeth o agweddau gwrth-LHDTC+ ar-lein.<br>Mae cyrff cyhoeddus yn deall yn well yr hyn sy'n gweithio o ran tarfu ar ledaenu cynnwys llawn casineb ar-lein.<br>Codi ymwybyddiaeth o gasineb ar-lein, sut i roi gwybod amdano, a'r cymorth a'r gwasanaeth eiriolaeth sydd ar gael i bobl LHDTC+ drwy Ganolfan Cymorth Casineb Cymru.<br>Caiff dysgwyr eu helpu i feithrin dealltwriaeth o natur ac effaith gymdeithasol, emosiynol, gorfforol a chyfreithiol ymddygiadau niweidiol, gan gynnwys bwlio yn seiliedig ar LHDTC+ mewn nifer o gyd-destunau, gan gynnwys ar-lein. | Yn barhaus | Is-adran Tegwch mewn Addysg Llywodraeth Cymru<br>Tîm HWB Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Gwella perthynas cymunedau LHDTC+ â Phlismona yng Nghymru** | Gweithio gyda Phlismona yng Nghymru i'w annog i ddarparu fforwm i'r heddlu ac asiantaethau gorfodi eraill gyfarfod â chymunedau a chynrychiolwyr LHDTC+.<br>Hwyluso trafodaethau â phobl anabl LHDTC+ a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol LHDTC+ er mwyn deall eu profiadau o swyddogion ymdrin â galwadau'r heddlu ac aelodau eraill o'r staff rheng flaen.<br>Byddwn yn gweithredu ar yr ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu, a gaiff ei gefnogi a'i adlewyrchu yn y Cytundeb Cydweithio, i ddadlau dros ddatganoli plismona a chyfiawnder, fel modd i sicrhau system sy'n briodol i Gymru, sy'n gwbl gynhwysol i bobl LHDTC+ ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. | Mae cymunedau LHDTC+ yn teimlo'n hyderus i ymgysylltu â gwasanaethu gorfodi'r gyfraith, ac yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u deall pan fyddant yn gwneud hynny.<br>Mae anghenion croestoriadol penodol pobl LHDTC+, yn enwedig y rhai o gymunedau anabl a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, yn cael eu diwallu. | Tymor hir | Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu<br>Bwrdd Casineb a Thensiynau Cymunedol Cymru<br>Prif Gwnstabliaid<br>Cymdeithasau Sifil LHDTC+<br>Tîm Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru<br>Tîm Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru<br>Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, sy'n cynnwys Plismona yng Nghymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **13** | **Targedu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ymhlith cymunedau LHDTC+** | Darparu cyllid hirdymor cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol.<br>Mae rhaglen waith Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n cynnwys pawb sy'n LHDTC+.<br>Gwneud gwaith ymchwil pellach i ddeall profiadau goroeswyr cam-drin domestig ethnig leiafrifol LHDTC+ ac anabl LHDTC+ yn well a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag rhoi gwybod am achosion o gam-drin, cael gafael ar gymorth, ac ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.<br>Gwella'r ffordd y caiff data gan ddarparwyr gwasanaethau VAWDASV, gan gynnwys data'r heddlu, eu casglu er mwyn cofnodi profiadau pobl LHDTC+ o roi gwybod am achosion, atgyfeiriadau a digwyddiadau.<br>Mae'r holl lenyddiaeth, negeseuon a mentrau codi ymwybyddiaeth yn LHDTC+-gynhwysol. | Gwell profiad i bobl LHDTC+ sy'n rhoi gwybod am achosion o VAWDASV.<br>Gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag rhoi gwybod am achosion.<br>Mae anghenion dynion cisryweddol a thrawsryweddol, gan gynnwys dynion hoyw a deurywiol, yn cael eu hystyried.<br>Mae goroeswyr LHDTC+ yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn llenyddiaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru. | Yn barhaus | Tîm VAWDASV Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru<br>Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd/Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran "Data ac Ymchwil") |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Mae gwasanaethau digartrefedd yn gynhwysol o ran anghenion penodol pobl LHDTC+** | Sicrhau bod pobl LHDTC+ yn rhan o ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol newydd sy'n ymwneud ag atal digartrefedd ac yn gallu dylanwadu arnynt.<br>Gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr cartrefi gofal i sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant llawn mewn perthynas â hawliau a rhwystrau pobl LHDTC+, yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda phobl LHDTC+ sy'n wynebu digartrefedd.<br>Fel rhan o werthusiad eang ei gwmpas o brosiectau digartrefedd, byddwn yn gwerthuso prosiectau LHDTC+ penodol, megis prosiect Tŷ Pride, a chasglu arferion gorau ac egwyddorion ynghyd i'w rhannu ag awdurdodau lleol o ran digartrefedd LHDTC+.<br>Parhau i gadw llygad ar ddatblygiadau arloesol mewn prosiectau cydraddoldebau a digartrefedd a'u rhannu â rhanddeiliaid fel y bo'n briodol. | Mae pobl LHDTC+ sy'n wynebu digartrefedd yn teimlo bod y cymorth yn hawdd i'w ddeall, a bodd modd cael gafael ar adnoddau.<br>Mae gwasanaethau digartrefedd yn ymgysylltu â phobl LHDTC+ mewn ffordd sensitif. | Tymor canolig | Tîm Atal Digartrefedd Llywodraeth Cymru<br>Tîm Polisi Tai Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru<br>Awdurdodau Lleol<br>CLlLC |

## C. Cenedl noddfa i geiswyr lloches a ffoaduriaid

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | **Adnabod, diogelu a chyfeirio pobl LHDTC+ sy'n hawlio lloches** | Dechrau cyd-drafod â Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Ffurflen Gais am Gymorth Lloches (ASF1) i gofnodi gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd er mwyn cynnig mesurau cyfeirio a diogelu wedi'u teilwra. | Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+ yn teimlo bod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn Genedl Noddfa yn cynnwys pobl LHDTC+.<br>Mae ffurflen ASF1 a'r Canllawiau i Weithwyr Achos Lloches wedi'u diwygio a'u diweddaru. | Tymor hir | Llywodraeth y DU<br>Gweinidog Mewnfudo'r DU<br>Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU<br>Tîm Cynhwysiant a Chydlyniant Llywodraeth Cymru |
| 16 | **Annog y broses o ddatblygu eiddo i geiswyr lloches LHDTC+ yn unig yng Nghymru** | Gweithio gyda'r holl asiantaethau priodol i hwyluso'r gwaith o ddiwallu anghenion gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth ceiswyr lloches LHDTC+ mewn perthynas â chael cartrefi priodol.<br>Casglu tystiolaeth o brofiadau cadarnhaol a negyddol ceiswyr lloches LHDTC+ mewn perthynas â thai er mwyn dangos y gofyniad i ystyried eu hanghenion yn benodol. | Daw gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cynghori, yn gwbl hygyrch i'r amrywiaeth lawn o geiswyr lloches.<br>Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+ yn teimlo bod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn Genedl Noddfa yn cynnwys pobl LHDTC+.<br>Mae gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cynghori, yn dangos sut y maent wedi dod yn fwy hygyrch, gyda'r ystyriaethau angenrheidiol o ran diogelu a lles wedi'u gweithredu. | Yn barhaus | Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU<br>Clearsprings Ready Homes<br>Sefydliadau a arweinir gan leiafrifoedd ethnig; CLILC<br>Tîm Cynhwysiant a Chydlyniant Llywodraeth Cymru<br>Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd/Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran "Data ac Ymchwil") |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **17** | **Sicrhau bod Cymru fel Cenedl Noddfa yn parhau i gynnwys pobl LHDTC+** | Gweithio gyda gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+ er mwyn ymgysylltu a deall anghenion ceiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+.<br>Casglu tystiolaeth o brofiadau cadarnhaol a negyddol ceiswyr lloches LHDTC+ mewn perthynas â'r broses lloches ac integreiddio yng Nghymru er mwyn deall ac ystyried eu hanghenion.<br>Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r profiadau uchod, creu hyfforddiant wedi'i deilwra i ddarparwyr gwasanaethau, cyrff cyhoeddus a sefydliadau perthnasol yng Nghymru ynglŷn â hawliau a materion ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTC+ yng Nghymru. | Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid LHDTC+ yn teimlo bod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn Genedl Noddfa yn cynnwys pobl LHDTC+.<br>Mae safbwyntiau ceiswyr lloches LHDTC+ yng Nghymru yn cael eu rhannu â'r Swyddfa Gartref.<br>Mae staff awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf oll am hawliau grwpiau mudwyr LHDTC+. | Tymor hir | Tîm Polisi Cynhwysiant a Chydlyniant Llywodraeth Cymru<br>CLlLC<br>Awdurdodau lleol |

## D. Iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **18** | **Deall a gwella profiad pobl LHDTC+ yn y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol** | **18.1 Hyfforddiant a'r gweithle**<br>• Cynnal adolygiad o'r hyfforddiant presennol i staff GIG Cymru ar arferion gofal iechyd cynhwysol, gan nodi unrhyw fylchau a mynd i'r afael â nhw.<br>• Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Fforwm Partneriaeth GIG Cymru, i ddeall profiad staff LHDTC+ yng ngweithle'r GIG. Cymryd unrhyw gamau priodol (gan gynnwys datblygu hyfforddiant) o ganlyniad i hynny.<br>• Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i lunio, cyflwyno a gwerthuso effaith hyfforddiant penodol i staff mwn lleoliadau gofal cymdeithasol. | Mae pobl LHDTC+ yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu a'u deall wrth ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.<br>Mae pobl LHDTC+ yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu a'u deall mewn cartrefi gofal. | Yn barhaus a thymor hir | Sefydliadau GIG Cymru<br>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>Arolygiaeth Gofal Cymru;<br>ADSS Cymru<br>Corff Llais y Dinesydd<br>Rhwydweithiau Cydraddoldeb ar gyfer staff<br>Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wahardd Therapi Trosi<br>Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **18.2 Arolygu**<br>• Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn ystyried defnyddwyr gwasanaethau a chleifion LHDTC+ wrth adolygu ei methodoleg arolygu yn unol â'r chwe pharth Ansawdd (yn benodol 'teg').<br>• Fel rhan o'i gwaith arolygu, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ystyried i ba raddau y mae pobl sy'n cael gofal a chymorth, gan gynnwys unigolion LHDTC+, yn cael eu trin gyda pharch a sensitifrwydd, gan roi sylw i unrhyw nodweddion gwarchodedig perthnasol.<br>**18.3 Cwynion**<br>• Annog cyrff iechyd i gofnodi data ar gydraddoldeb, lle y bo modd, er mwyn canfod a yw pobl LHDTC+ yn gwneud cwynion am eu gofal. Dylent adolygu'r data a chyflwyno adroddiadau i'w Pwyllgorau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Ansawdd a Diogelwch.<br>• Yng nghyd-destun gofal cymdeithasol, gwella i ba raddau y mae defnyddwyr gwasanaethau yn rhoi gwybod am bryderon a chwynion a chofnodi camau gweithredu dilynol [gan ymgysylltu â'r corff annibynnol newydd, Llais y Dinesydd], darparwyr gwasanaethau eiriolaeth, ac awdurdodau lleol.<br>• Ystyried anghenion pobl LHDTC+ o bob oedran yn y broses o adolygu codau ymarfer a chanllawiau statudol o dan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** a **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru (Cymru) 2016**. | | | Cyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio Llywodraeth Cymru<br>Tîm Iechyd y Boblogaeth Llywodraeth Cymru<br>Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru<br>Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd/Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran "Data ac Ymchwil") |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **18.4 Canlyniadau a phrofiadau**<br>• Drwy adolygiad o'r ymchwil a'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes, nodi'r rhwystrau y mae pobl LHDTC+ yn eu hwynebu wrth gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys unrhyw brofiadau o agweddau gwrth-LHDTC+, ac effaith y rhwystrau hyn ar ymddygiadau pobl o ran cadw'n iach a'u llesiant. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, sgrinio rhag canser a darpariaethau iechyd rhywiol. Rhannu canlyniadau'r adolygiadau ymchwil â Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn ystyried gweithredu arnynt.<br>• Yng nghyd-destun gofal iechyd a gofal cymdeithasol, adolygu'r dystiolaeth ynglŷn ag effaith ymddygiadau penodol (e.e., ymddygiad camddefnyddio sylweddau, defnyddio tybaco, iechyd rhywiol, ac iechyd meddwl) a all gael effaith anghymesur ar unigolion LHDTC+. Defnyddio'r adolygiad i nodi'r llwybrau gorau i gomisiynu gwasanaethau. | | | |
| 19 | **Sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a ffrwythlondeb yn hygyrch ac yn syml i'w defnyddio i bobl LHDTC+** | Adolygu a gwella llwybrau atgyfeirio a gwasanaethau ym maes ffrwythlondeb i bobl LHDTC+.<br>Nodi, adolygu a gwella mynediad at driniaeth ffrwythloni in vitro, gan gynnwys costau ariannol i bob LHDTC+.<br>Bydd canllawiau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ffrwythlondeb – ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Tachwedd/ Rhagfyr 2022 – yn cyfeirio at bennu'n fenyw ar adeg geni a phennu'n wryw ar adeg geni a chleifion ar lwybr a ariennir gan y GIG tuag at ailbennu rhywedd, a chynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y maent yn cadw eu ffrwythlondeb. | Gall teuluoedd o'r un rhyw gael gafael ar driniaeth ffrwythlondeb yn yr un modd â phawb arall.<br>Caiff pobl draws fynediad amserol at ddulliau storio gametau nad ydynt yn achosi gormod o oedi cyn trawsnewid yn feddygol. | Tymor hir | Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru<br>Tîm Ansawdd a Nyrsio Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r strategaeth iechyd meddwl newydd yn ystyried pobl LHDTC+** | Nodi ac ystyried anghenion pobl, ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTC+ fel rhan o'r gwaith ymgysylltu i ddatblygu'r Strategaeth.<br>Datblygu camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chanlyniadau. | Mae pobl LHDTC+ yn hyderus bod gwasanaethau iechyd meddwl yn diwallu eu hanghenion. | Tymor hir | Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru<br>Tîm Ansawdd a Nyrsio Llywodraeth Cymru |
| 21 | **Cyhoeddi Cynllun Gweithredu HIV newydd a gweithredu arno** | Cyhoeddi Cynllun Gweithredu HIV drafft i Gymru a chynnal ymgynghoriad.<br>Adolygu ymatebion a chyhoeddi Cynllun Gweithredu HIV diwygiedig i Gymru sy'n cynnwys ffocws ar atal, diagnosis hwyr, addysg, darparu gwasanaethau'n deg, a dileu stigma.<br>Sefydlu grŵp trosolwg i fonitro'r gwaith o weithredu'r camau yn ein Cynllun HIV. | Mae pobl sy'n byw gyda HIV yn teimlo'n fodlon ar ansawdd eu bywyd ac ansawdd eu gofal.<br>Llai o achosion o ddiagnosis hwyr.<br>Mae Cymru yn cyrraedd y targed o ddim trosglwyddiadau HIV newydd erbyn 2030. | Yn barhaus | Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Byrddau iechyd<br>Tîm Diogelu Iechyd Llywodraeth Cymru |
| 22 | **Goresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl LHDTC+ rhag defnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol** | Codi ymwybyddiaeth, drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu, gyda phobl LHDTC+, o'r gwasanaethau o bell sydd ar gael, gan gynnwys profion drwy'r post (gweler ***Cynllun Gweithredu HIV Cymru***).<br>Cynyddu gwasanaethau telefeddygaeth a gwasanaethau o bell er mwyn darparu ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru nad ydynt yn cael gwasanaeth digonol ar hyn o bryd, gan ystyried pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. | Mae pobl LHDTC+ ym mhob rhanbarth yng Nghymru yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad hawdd, preifat, a chyfrinachol at wasanaeth iechyd rhywiol. | Tymor canolig | Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru<br>Tîm Diogelu Iechyd Llywodraeth Cymru<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Byrddau iechyd |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **23** | **Adolygu'r llwybr Datblygu Hunaniaeth Rhywedd i bobl ifanc yng Nghymru** | Sicrhau bod pobl ifanc a rhanddeiliaid yng Nghymru yn rhan o'r ymgynghoriad ar fanyleb gwasanaeth dros dro.<br>Ystyried opsiynau ar gyfer datblygu gwasanaeth yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â phobl ifanc, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid. | Gall plant a phobl ifanc draws yng Nghymru gael gwasanaethau'n agosach i'w cartref.<br>Mae gwasanaethau iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc draws yn canolbwyntio ar angen clinigol ac yn seiliedig ar dystiolaeth glinigol. | Tymor hir | Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru<br>Gwasanaeth Rhywedd Cymru<br>Comisiynwyr Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru |
| **24** | **Parhau i ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru** | Lleihau amseroedd aros ymhellach ar gyfer Gwasanaeth Rhywedd Cymru a thimau rhywedd lleol.<br>Galluogi meddygon teulu i ddechrau therapi hormonau fel rhan o'r llwybr i oedolion.<br>Deall anghenion pobl anneuaidd o ran defnyddio Gwasanaeth Rhywedd Cymru. | Gall defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru gael gafael ar wasanaethau hunaniaeth rhywedd yn fwy amserol ac yn agosach i'w cartrefi.<br>Mae pobl anneuaidd yn hyderus bod Gwasanaeth Rhywedd Cymru yn diwallu eu hanghenion gofal iechyd.<br>Yn unol â Cham Gweithredu 18, Gweithgaredd 18.4 o'r Cynllun hwn, caiff canlyniadau iechyd cyffredinol a phrofiadau pobl draws ac anneuaidd eu hystyried. | Tymor hir | Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru<br>Gwasanaeth Rhywedd Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Gwella'r ffordd y cofnodir data a'r prosesau newid ar gyfer cynnal cofnodion meddygol pobl draws, anneuaidd a rhyngryw** | Ymgysylltu â phaneli o arbenigwyr a grwpiau rhanddeiliaid er mwyn deall anghenion pobl draws, anneuaidd a rhyngryw mewn perthynas â chofnodi data demograffig a chlinigol.<br>Defnyddio'r canfyddiadau hyn i wella gwybodaeth am wasanaethau rhyw-benodol y GIG i gleifion (e.e., sgrinio serfigol, y fron a'r brostad).<br>Adolygiad ehangach o'r defnydd o ddynodwyr rhyw a rhywedd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am newid manylion yn cael ei throsglwyddo i systemau demograffig eraill y GIG.<br>Ystyried opsiynau ar gyfer diwygio neu ddatblygu gwasanaethau digidol i gyflawni nodau'r polisi uchod a fyddai'n gysylltiedig â chynnwys dinasyddion traws, anneuaidd, a rhyngryw yn well. | Gwell mynediad at wasanaethau gofal iechyd a llai o risg o allgáu.<br>Mae'r ffordd y mae'r GIG yn cyfathrebu yn adlewyrchu anghenion pobl draws ac anneuaidd. | Tymor hir | Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru |

## E. Addysg gynhwysol

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **26** | **Rhoi canllawiau cenedlaethol ar faterion traws i ysgolion ac awdurdodau lleol** | Cyhoeddi’r Canllawiau ar Drawsrywedd i ysgolion yn llawn. | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol roi’r canllawiau cenedlaethol ar waith yn hyderus.<br>Gellir ymdrin â heriau i’r canllawiau yn genedlaethol, yn hytrach na chan ysgolion ac awdurdodau lleol unigol. | Haf 2023 | Is-adran Tegwch mewn Addysg Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 27 | **Cefnogi pobl ifanc LHDTC+ a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig, a thrawsffobig** | Darparu adnoddau dysgu proffesiynol a chymorth i ymarferwyr o ran adnabod, cofnodi a herio bwlio ac aflonyddu sy'n seiliedig ar ragfarn, yn ystod yr hyfforddiant cychwynnol ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Dylai hyn ystyried sut mae gweithwyr proffesiynol yn cefnogi pobl ifanc LHDTC+ drwy atal a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig, a thrawsffobig drwy ymgorffori dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau.<br>Ymgysylltu ag awdurdodau lleol i wella mynediad at ddata a gesglir gan ysgolion ynglŷn â bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDTC+ a gwneud gwell defnydd o'r data hynny, yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.<br>Mae rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon wedi'u hachredu yn cael eu haddysgu mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw disgyblion/myfyrwyr LHDTC+ yn destun gwahaniaethu ac sy'n mynd ati'n weithredol i ymdrin ag anghydraddoldebau allweddol, deall ac atal bwlio a phwysau negyddol gan gyfoedion, a chael gwybodaeth am faterion a gweithdrefnau diogelu.<br>Gwella "Hawliau, parch, cydraddoldeb – canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir" a chyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru. | Mae pobl ifanc LHDTC+ yn nodi lefelau is o fwlio a gwahaniaethu.<br>Mae pobl ifanc LHDTC+ yn deall sut i gael cymorth pan fyddant yn wynebu gwahaniaethu neu fwlio.<br>Mae pobl ifanc LHDTC+ yn ddigon hyderus i herio bwlio a gwahaniaethu. | Adolygiad o aflonyddu rhywiol rhwng cyd-fyfyrwyr mewn addysg bellach i'w gyhoeddi yn 2023 | Is-adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru<br>Tîm Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran "Data ac Ymchwil") |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **28** | **Llunio dull gweithredu ysgol gyfan sy'n gwbl LHDTC+-gynhwysol a'i roi ar waith** | Cefnogi ysgolion o ran gofynion gorfodol y Cod a'r canllawiau statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n LHDTC+-gynhwysol.<br>Sicrhau bod adnoddau addysgol yn cynnwys deunyddiau sy'n LHDTC+-gynhwysol, gan gynnwys yn y Gymraeg.<br>Rhoi cyfleoedd dysgu proffesiynol i bob aelod o staff mewn ysgolion a lleoliadau addysgol er mwyn iddynt ddeall elfennau craidd darparu addysg sy'n LHDTC+-gynhwysol.<br>Helpu ysgolion yng Nghymru, ynghyd ag awdurdodau lleol, i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn enwedig y gofyniad i gyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb. | Mae gan ysgolion a lleoliadau addysgol yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i roi'r Cod a'r Canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar waith yn llwyddiannus ym mhob lleoliad addysgol, yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Mae amrywiaeth o lenyddiaeth ac adnoddau sy'n LHDTC+-gynhwysol ar gael ym mhob ysgol a lleoliad addysgol, yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Mae pobl ifanc LHDTC+ sy'n siarad Cymraeg yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn amgylchedd eu hysgol, mewn addysg, ac mewn llenyddiaeth Gymraeg. | Yn barhaus | Is-adran Tegwch mewn Addysg Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Cwricwlwm Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Sicrhau bod pob coleg a phrifysgol yng Nghymru yn amgylcheddau LHDTC+-gynhwysol i ddysgwyr, myfyrwyr, a staff** | Gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i annog prifysgolion i ystyried materion sy'n ymwneud â chroestoriadedd, gan gynnwys cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, wrth ystyried sut maent yn cefnogi eu staff a'u myfyrwyr amrywiol.<br>Gweithio gyda phrifysgolion a cholegau yng Nghymru er mwyn sicrhau bod eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn nodi sut y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys o ran sut mae hyn yn ymwneud ag ailbennu rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.<br>Comisiynu adolygiad thematig o aflonyddu rhywiol rhwng cyd-fyfyrwyr mewn addysg bellach eleni, a fydd yn cynnwys nodi problemau o ran gwahaniaethu neu fwlio homoffobig. | Gall myfyrwyr LHDTC+ astudio a dilyn eu gyrfaoedd mewn amgylchedd lle nad oes unrhyw aflonyddu, gwahaniaethu nac erledigaeth.<br>Galluogi pob myfyriwr a myfyrwraig i gyflawni eu llawn botensial, i gael eu cefnogi'n llawn ac i chwarae rhan lawn yn eu hastudiaethau drwy gydol eu cwrs.<br>Mae polisïau a phrosesau cwyno cadarn ar waith i fyfyrwyr a staff. System lle y gall myfyrwyr fod yn hyderus y gallant godi unrhyw bryderon a rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau heb ofn, gan wybod y bydd y sefydliad yn ymdrin â nhw mewn ffordd briodol.<br>Mwy o ymwybyddiaeth o ddulliau sefydliad cyfan cyson o fynd i'r afael â thrais, aflonyddu a bwlio ar sail LHDTC+.<br>Gwell sylfaen dystiolaeth ynglŷn â phrofiadau dysgwyr LHDTC+ ac argymhellion ynglŷn â chamau gweithredu i fynd i'r afael â phroblemau o ran gwahaniaethu homoffobig mewn addysg bellach. | Tymor canolig | Is-adran Polisi a Chyflawni Addysg Uwch Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau Llywodraeth Cymru<br>CCAUC<br>Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |

## F. Cymunedau, Bywyd Preifat a Bywyd Teuluol

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 30 | **Cefnogi bywydau teuluol pobl LHDTC+** | Gweithio ar draws Llywodraeth Cymru a chyda darparwyr allanol er mwyn sicrhau bod adnoddau gwasanaethau presennol, megis ymgyrch "Magu plant. Rhowch amser iddo" Llywodraeth Cymru, yn diwallu anghenion rhieni a theuluoedd pobl ifanc LHDTC+.<br>Helpu i baratoi adnoddau ar gyfer pob oedran ar deuluoedd LHDTC+, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dylai'r rhain gynnwys cynrychioliad o gydberthnasau teuluol amrywiol gyda phobl LHDTC+, megis rhieni, gofalwyr, brodyr a chwiorydd, plant ac ati sy'n LHDTC+. | Mae pob aelod o'r teulu yn teimlo'n hyderus ynglŷn â sut i gefnogi'r aelodau o'r teulu sy'n LHDTC+, gan gynnwys plant a phobl ifanc. | Tymor canolig | Is-adran Trechu Tlodi a Chefnogi Teuluoedd Llywodraeth Cymru<br>Cangen Rianta Llywodraeth Cymru<br>Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd/Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran "Data ac Ymchwil") |
| 31 | **Cefnogi'r sector gwaith ieuenctid LHDTC+** | Ystyried opsiynau ar gyfer model cyllido cynaliadwy yn y tymor hwy i sefydliadau, gan gynnwys yn y sector gwirfoddol, sy'n rhoi cymorth i amrywiaeth eang o bobl ifanc sydd â chefndiroedd ac anghenion gwahanol, gan gynnwys cymorth i bobl ifanc LHDTC+.<br>Ymgysylltu â'r sector gwaith ieuenctid er mwyn gwella mynediad at ddarpariaeth Gwaith Ieuenctid a lleoedd diogel i bobl ifanc â chefndiroedd ac anghenion gwahanol, gan gynnwys pobl ifanc LHDTC+, a sicrhau mwy o amrywiaeth yn y gweithlu gwaith ieuenctid. | Gall pobl ifanc LHDTC+ gael gafael ar wasanaethau gwaith ieuenctid sy'n berthnasol iddynt, ac mae lleoedd diogel ar gael iddynt. | Gorffennaf 2023 – Mehefin 2024 ac yn y tymor hwy<br>O fis Hydref 2022 ac yn y tymor hwy. | Tîm Ymgysylltu ag Ieuenctid Llywodraeth Cymru<br>Tîm Cymorth Dysgu Llywodraeth Cymru<br>Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid |
| 32 | **Cefnogi deialog agored rhwng grwpiau ffydd a phobl LHDTC+** | Mynd ati i ddechrau sgyrsiau rhyng-ffydd i alluogi rhyngweithio cadarnhaol rhwng grwpiau ffydd a chymunedau LHDTC+. | Mae pobl LHDTC+ grefyddol yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn yn eu cymunedau ffydd. | Tymor hir | Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 33 | **Sicrhau bod gwasanaethau cymorth Cymraeg ar gael i siaradwyr Cymraeg LHDTC+** | Mae gwasanaethau a ddarperir gan wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid wedi'u cyllido ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg a pholisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhai sy'n cael grantiau a gwasanaethau sy'n cael eu cyllido. | Gall siaradwyr Cymraeg LHDTC+ gael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith. | Yn barhaus | Is-adran y Gymraeg<br>Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |
| 34 | **Rhoi cymorth i bobl ifanc LHDTC+ gymryd rhan mewn democratiaeth, gan gynnwys sefyll am swyddi etholedig.** | Hyrwyddo mynediad at fodelau rôl amrywiol o ran cymryd rhan mewn democratiaeth, gan gynnwys sefyll etholiad am swydd.<br>Parhau â'r cymorth i gynlluniau mentora megis "Pŵer Cyfwerth Llais Cyfwerth" Rhaglen Mentora Bywyd Cyhoeddus.<br>Ymgynghori â grwpiau rhanddeiliaid LHDTC+ ynglŷn â chynigion ar gyfer Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol, gan gynnwys mesurau i leihau achosion o gam-drin ymgeiswyr etholiadol a chynigion i ehangu'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig. | Mae pobl LHDTC+ yn cael eu cynrychioli'n well mewn bywyd cyhoeddus. | Yn barhaus | Grŵp Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Etholiadau Llywodraeth Cymru<br>Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |
| 35 | **Cefnogi sefydliadau Pride ledled Cymru** | Parhau â'n cymorth i Pride Cymru.<br>Drwy "Cronfa Llawr Gwlad LHDTC+ Cymru Gyfan ar gyfer digwyddiadau Pride", cefnogi sefydliadau Pride a digwyddiadau Pride lleol. | Mae digwyddiadau Pride lleol yn cael eu cyllido'n well ac yn gallu gwasanaethu eu poblogaethau LHDTC+ yn well.<br>Gwella cysylltedd a phrofiadau cymunedau LHDTC+ o ran dimensiynau gwledig a rhanbarthol. | Yn barhaus | Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **36** | **Defnyddio digwyddiadau ymwybyddiaeth o faterion LHDTC+ er mwyn cryfhau llais pobl LHDTC+** | Mae dyddiadau pwysig i bobl LHDTC+, gan gynnwys Mis Hanes LHDTC+, yn cael eu cydnabod yn neunydd cyfathrebu Llywodraeth Cymru.<br>Mae baneri priodol yn cael eu codi yn adeiladau'r sector cyhoeddus, yn enwedig baneri cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol (e.e., deurywiol; arywiol; aramantaidd).<br>Mae swyddogion etholedig yn cefnogi digwyddiadau er mwyn nodi dyddiadau pwysig. | Mae cymunedau unigol o fewn y gymuned LHDTC+ ehangach yn teimlo eu bod yn cael eu gweld a'u clywed.<br>Mae lleisiau rhannau o gymunedau LHDTC+ heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu clywed. | Yn barhaus | Tîm Cyfathrebu Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru |
| **37** | **Cefnogi cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n LHDTC+** | Darparu adnoddau i gyflwyno grŵp cymorth i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n LHDTC+ yng Nghaerdydd a'r Fro, ac yn ardal Cwm Taf.<br>Rhoi cymorth i'r elusen "Fighting with Pride", er mwyn gwella a chefnogi iechyd a llesiant cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n LHDTC+. | Mae cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru sy'n LHDTC+ yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi fel rhan annatod o'r gymuned ehangach o gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog.<br>Mae cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n LHDTC+ yn ymwybodol o'r cyfle i gymryd rhan yn yr Adolygiad Annibynnol o Gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n LHDTC+. | Erbyn diwedd mis Hydref 2022<br>Erbyn mis Mawrth 2023 | Grŵp Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru<br>Cangen y Lluoedd Arfog Llywodraeth Cymru |

## G. Cymryd Rhan ym Mywyd Cymru: Diwylliant a Chwaraeon

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 38 | **Gwella cynrychiolaeth, cynhwysiant, a chyfranogiad pobl LHDTC+ ym myd chwaraeon** | Arddangos gwerthoedd Llywodraeth Cymru ynglŷn â hawliau LHDTC+ ar lwyfannau chwaraeon rhyngwladol.<br>Gwella cynrychiolaeth LHDTC+ yn y sectorau chwaraeon yng Nghymru ar bob lefel, gan gynnwys ar lefel Byrddau, y gweithlu a gwirfoddolwyr.<br>Rhoi mwy o ffocws ar gydraddoldeb fel rhan o weithgareddau a chyfleoedd sy'n ymwneud â datblygu sgiliau, profiadau gwaith, gwirfoddoli, mentora a phrentisiaethau yn y sector chwaraeon.<br>Sicrhau bod y gweithlu chwaraeon yn ymwybodol o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ac yn ymgysylltu â nhw. | Mae'r gymuned LHDTC+ yn cael ei chynrychioli'n well a'i derbyn yn y sector chwaraeon.<br>Cyfraniad at sicrhau mai Cymru yw'r wlad fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+ erbyn 2030.<br>Mae arferion gorau y gellir eu cyflwyno'n unol â'r anghenion yn cael eu rhannu, ac mae hyn yn arwain at well prosesau llunio a gweithredu polisïau. | Yn barhaus | Grŵp Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru |
| 39 | **Gwella mynediad a chyfranogiad pobl drawsryweddol ym myd chwaraeon** | Asesu'r broses o roi'r canllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol mewn Chwaraeon Domestig ar waith a'i effeithiolrwydd.<br>Comisiynu rhagor o ymchwil i brofiadau pobl drawsryweddol ym myd chwaraeon.<br>Gweithio gyda chyrff chwaraeon i wella polisïau a chanllawiau ar gynnwys pobl draws ledled Cymru. | Mae pobl drawsryweddol yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u derbyn yn y sector chwaraeon. | Tymor canolig i'r tymor hir | Grŵp Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru<br>Tîm Chwaraeon Llywodraeth Cymru<br>Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd/Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran "Data ac Ymchwil") |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **40** | **Dathlu a gwella cynrychiolaeth cymunedau LHDTC+ yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru** | Gweithio gyda sefydliadau partner er mwyn helpu cymunedau LHDTC+ i goladu a rhoi casgliadaau i archifau ac amgueddfeydd lleol.<br>Sefydlu mentrau cydweithredol â chasgliadau cenedlaethol a lleol i gefnogi gweithgarwch Pride ledled Cymru, gan gynnwys yn ystod mis Pride.<br>Defnyddio casgliadau cenedlaethol a lleol yng Nghymru i ddathlu a rhannu straeon a hanesion LHDTC+, gan roi cyllid lle y bo'n briodol.<br>Gwella cynrychiolaeth pobl LHDTC+ yn y sector diwylliant yng Nghymru ar bob lefel, gan gynnwys ar lefel Byrddau, y gweithlu, a gwirfoddolwyr.<br>Cydweithio â sefydliadau LHDTC+ a phartneriaid allweddol er mwyn sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu yn y ffordd y caiff diwylliant LHDTC+ ei gynrychioli. Un enghraifft o'r fath yw partneriaeth Mas ar y Maes. | Mae diwylliant a hanes LHDTC+ yn cael eu cynrychioli'n well yn y sector diwylliannol.<br>Mae anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu yn y ffordd y caiff diwylliant LHDTC+ ei gynrychioli. | Tymor canolig i'r tymor hir | Grŵp Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru<br>Tîm Nawdd Diwylliant Llywodraeth Cymru |
| **41** | **Cael mwy o gyfranogiad gan bobl a sefydliadau LHDTC+ wrth lunio trefniadau a gweithgareddau diwylliannol** | Annog cyrff cyhoeddus ym maes diwylliant i gynnwys cymunedau LHDTC+ yn eu nodau a'u hamcanion.<br>Datblygu a rhannu arferion gorau y gellir eu cyflwyno'n unol â'r anghenion.<br>Rhoi mwy o ffocws ar gydraddoldeb fel rhan o weithgareddau a chyfleoedd sy'n ymwneud â datblygu sgiliau, profiadau gwaith, gwirfoddoli, mentora a phrentisiaethau yn y sector diwylliannol. | Mae'r rhai sy'n darparu gwasanaethau diwylliannol yn ymwybodol o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol ac yn ymgysylltu â nhw. | Tymor canolig i'r tymor hir | Grŵp Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru<br>Tîm Nawdd Diwylliant Llywodraeth Cymru |

## H. Gweithleoedd Cynhwysol

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 42 | **Dileu prosesau adnabod personol diangen mewn arferion recriwtio** | Rhoi system recriwtio newydd Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi arferion recriwtio dienw, ar waith.<br>Bydd dynodwyr fel enw, teitlau, oedran a rhywedd yn cael eu dileu neu eu rhoi ar ffurf gyfyngedig lle y tybir bod hynny'n angenrheidiol.<br>Adolygu iaith ryweddol a dynodwyr rhywedd er mwyn cydnabod pobl anneuaidd a rhyngryw ym mhrosesau recriwtio Llywodraeth Cymru.<br>Casglu gwybodaeth am gydraddoldebau ar wahân i'r prif ddogfennau recriwtio a'u hanonymeiddio i'w defnyddio wrth gynllunio polisi. | Mae rhwystrau mewn arferion recriwtio wedi cael eu dileu ac mae ymgeiswyr yn fwy hyderus.<br>Nid yw'n ofynnol i bobl anneuaidd na phobl ryngryw ddewis rhyw/rhywedd nad yw'n berthnasol iddynt. | Erbyn mis Mawrth 2023 | Tîm Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru<br>CLlLC<br>Cymdeithasau sifil LHDTC+ |
| 43 | **Rhoi hyfforddiant ar gydraddoldebau sy'n cynnwys anghenion pobl LHDTC+ i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus** | Adolygu rheoliadau a phrosesau adrodd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys hyfforddiant.<br>Nodi adnoddau hyfforddiant sy'n bodoli eisoes sydd eu hangen ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.<br>Nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth gyfredol yn y maes hwn a gweithio gyda grwpiau cydraddoldebau eraill er mwyn sicrhau bod y bylchau hynny'n cael eu cau.<br>Sicrhau bod hyfforddiant ar gydraddoldeb croestoriadol yn cael ei lunio a'i gyflwyno i sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.<br>Cydweithio â TUC Cymru ac undebau llafur, lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau cymaint o adnoddau a chyrhaeddiad yn y gweithle â phosibl. | Mae pob gweithiwr mewn gwasanaeth cyhoeddus yn deall hawliau, anghenion a rhwystrau pobl LHDTC+.<br>Mae cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn deall eu rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â deddfwriaeth cydraddoldeb.<br>Mae'r hyfforddiant sy'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn diwallu anghenion LHDTC+. | Tymor canolig i'r tymor hir | Tîm Cydraddoldebau Llywodraeth Cymru – Cydraddoldeb Strategol<br>Awdurdodau Lleol<br>CLlLC<br>Cyrff cyhoeddus<br>TUC Cymru<br>Undebau Llafur<br>Tîm Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| **44** | **Annog cyflogwyr yn y sector preifat i fod yn LHDTC+-gynhwysol** | Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i annog cyflogwyr i hyrwyddo, rhannu a mabwysiadu arferion gorau mewn perthynas â gweithleoedd cynhwysol, gan gynnwys lledaenu astudiaethau achos.<br>Gwella mynediad at wybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth i gyflogwyr ynglŷn â chyflogi gweithwyr LHDTC+, gan gynnwys gwybodaeth am gyfrifoldebau cyfreithiol.<br>Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr i annog cyflogwyr i fabwysiadu polisïau a gweithdrefnau o ran cydraddoldebau sy'n diogelu rhag gwahaniaethu yn erbyn pobl LHDTC+.<br>Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr i roi arweiniad i gyflogwyr ar bwysigrwydd casglu data ar amrywiaeth a'u defnyddio i hyrwyddo cynhwysiant. | Gweithleoedd sy'n fwy LHDTC+-gynhwysol.<br>Mae pobl LHDTC+ yn deall ac yn defnyddio llwybrau i roi gwybod am wahaniaethu ar sail LHDTC+ mewn gweithleoedd yng Nghymru.<br>Gwell gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o hawliau LHDTC+ yn y gweithle a chyfrifoldebau cyflogwyr.<br>Mae lefelau o wahaniaethu ar sail LHDTC+ y rhoddwyd gwybod amdano yn gostwng mewn gweithleoedd yng Nghymru.<br>Mae mwy o ddata ar amrywiaeth ar gael gan y sector preifat. | Tymor canolig i'r tymor hir | Is-adran Gwaith Teg Llywodraeth Cymru<br>TUC Cymru<br>Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd/Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran "Data ac Ymchwil") |

## I. Effaith COVID-19

| Rhif | Cam gweithredu | Gweithgareddau | Canlyniad | Amserlen | Perchnogion y cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| 45 | **Wrth gynllunio ymateb adfer ar ôl COVID-19 a'i roi ar waith, ystyried profiadau pobl LHDTC+, yn enwedig yr effaith ar iechyd meddwl** | Cefnogi lleoedd a gwasanaethau LHDTC+ drwy gyllid arbennig sy'n gysylltiedig â COVID-19 sydd wedi'i dargedu.<br>Rhoi mesurau ar waith i wella bywydau LHDTC+ ar ôl y pandemig. | Mae pobl LHDTC+ yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i oresgyn effeithiau negyddol a achoswyd gan bandemig y Coronafeirws. | Yn barhaus. | Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru |
| 46 | **Cynnal ymchwiliad trylwyr i'r ffordd y mae pandemig y Coronafeirws wedi effeithio ar bobl LHDTC+, yn enwedig pobl ifanc LHDTC+ a phobl anabl LHDTC+, yng Nghymru** | Cyhoeddi adolygiad cyflym o'r dystiolaeth sydd ar gael ar effaith COVID-19 ar bobl LHDTC+. | Mae pobl LHDTC+ yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i oresgyn effeithiau negyddol a achoswyd gan bandemig y Coronafeirws. | Yn barhaus. | Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd/Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru<br>(gweler yr adran "Data ac Ymchwil") |

# Rhestr termau

Mae'r Rhestr Termau ganlynol yn casglu rhai diffiniadau a ddefnyddiwyd yng nghyhoeddiadau a deddfwriaeth flaenorol Llywodraeth Cymru (**Llywodraeth Cymru 2019b**; **Llywodraeth Cymru 2019c**). Fodd bynnag, nid oes gan rai termau ddiffiniad cyfreithiol. Am ragor o wybodaeth, ac i weld y termau hynny nad oes ganddynt ddiffiniad cyfreithiol, edrychwch ar restrau termau eraill sydd eisoes ar gael, gan gynnwys tudalen a:gender (**2022**), tudalen Stonewall (**2022**), y Rhestr Termau ar gyfer Adroddiad Llywodraeth Cymru ar Gyfrifiad 2021 (**Llywodraeth Cymru 2023**), a geiriadur Cyfrifiad 2021 SYG (**Cyfrifiad 2021 SYG**). Dylid defnyddio'r adran hon i egluro'r derminoleg a ddefnyddir yn y Cynllun Gweithredu hwn. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw deall sut mae pobl yn cyfeirio atynt hwy ei hunain, ac ni fwriedir i'r rhestr termau hon awgrymu diffiniadau cynhwysfawr o gyfeiriadeddau na hunaniaethau y tu hwnt i ddiben y gwaith hwn.

**Ace/Aro, neu Arywiol/Aramantaidd:** Mae Ace, neu "arywiol" yn cwmpasu grŵp o ddiffiniadau i bobl sy'n cael dim neu prin ddim profiad o atyniad rhywiol at eraill. Aro yw'r term byrfodd am aramantaidd, sydd yn aml yn cyfeirio at rywun sy'n cael dim neu fawr ddim profiad o atyniad rhamantaidd at eraill.

**Arferion Trosi:** Defnyddir y term arfer trosi fel un cyffredinol i ddisgrifio ymyriadau o natur amrywiol, y mae pob un ohonynt yn seiliedig ar y camsyniad y gall cyfeiriadedd rhywiol a rhywedd person, gan gynnwys hunaniaeth a mynegiant rhywedd, gael eu newid neu eu hatal pan na fyddant yn dod o dan yr hyn y mae eraill mewn lleoliad ac amser penodol yn ei ganfod yn norm a ddymunir, yn enwedig pan fydd y person yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol, yn draws, yn anneuaidd neu'n rhywedd-amrywiol (sef "LHDTC+"). Felly, mae arferion o'r fath wedi'u hanelu'n gyson at sicrhau newid o beidio â bod yn heterorywiol i fod yn heterorywiol a/neu o fod yn draws neu'n rhywedd-amrywiol i fod yn cisryweddol. Yn dibynnu ar y cyd-destun, defnyddir y term am nifer o arferion a dulliau, y mae rhai ohonynt yn ddirgel ac felly ni wyddys llawer amdanynt.

**Rhywedd:** Term a ddefnyddir i gyfeirio at ymdeimlad mewnol rhywun o fod yn fenyw, yn wryw neu'n anneuaidd. Nid yw rhywedd pobl bob amser yn cyd-fynd â'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni (gweler trawsryweddol/traws). Defnyddir y term hwn yng nghyd-destun mynegiant rhywedd neu hunaniaeth rhywedd weithiau.

**Rhywedd-amrywiol:** Defnyddir y term "rhywedd-amrywiol" i gyfeirio at bobl y mae eu rhywedd, gan gynnwys eu hunaniaeth rhywedd a'u mynegiant rhywedd, yn mynd yn groes i'r hyn a ganfyddir yn norm rhywedd mewn cyd-destun penodol ar adeg benodol, gan gynnwys y rhai sy'n gosod eu hunain y tu allan i'r syniad traddodiadol deuaidd gwryw/benyw o rywedd.

**Mynegiant Rhywedd:** Mae hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae unigolyn yn dewis ymgyflwyno mewn cymdeithas er mwyn adlewyrchu eu rhywedd ar y cyd â rhai normau a gwahaniaethau cymdeithasol a diwylliannol sydd gan gymdeithasau ynglŷn â sut mae pobl yn ymddwyn, yn mynegi eu hunain, yn ymddangos neu'n gwisgo. Mae pobl yn aml yn cael ymdeimlad pwysig o hunaniaeth yn y rhain, ond gallant hefyd olygu bod gwahaniaethu, anghydraddoldebau a niweidiau yn parhau.

**Hunaniaeth Rhywedd:** Defnyddir y term hwn yn aml i fod yn gyfystyr â rhywedd ac mae'n golygu'r un peth yn y pen draw – ymdeimlad person ohono'i hun. Mae'r term "hunaniaeth rhywedd" wedi bod yn ffynhonnell rhethreg am yr ymadrodd "uniaethu yn…" sy'n polareiddio ac mae wedi cael ei wrthod gan rai pobl a grwpiau sy'n ffafrio'r term symlach "rhywedd".

**Ailbennu Rhywedd:** Dyma'r term sy'n disgrifio pobl drawsryweddol sy'n cael eu diogelu rhag gwahaniaethu o dan y gyfraith. O dan Adran 7 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. *"A person has the protected characteristic of gender reassignment if the person is proposing to undergo, is undergoing or has undergone a process (or part of a process) for the purpose of reassigning the person's sex by changing physiological or other attributes of sex."*

**Croestoriadedd:** Mae'n ymwneud â'r ffordd y mae gwahanol fathau o wahaniaethu (h.y., trin person yn annheg oherwydd ei nodweddion gwarchodedig) yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn effeithio ar ei gilydd. Mae gwahaniaethu croestoriadol, a elwir weithiau yn wahaniaethu cyfun, yn codi os gwahaniaethir yn erbyn person oherwydd cyfuniad penodol o ddwy nodwedd warchodedig neu fwy.

**Rhyngryw ac Amrywiadau mewn Nodweddion Rhyw (VSC):** Person rhyngryw yw rhywun nad yw'n cyfateb i'r disgwyliadau confensiynol ar gyfer datblygiad benyw neu wryw o ran anatomi, metaboliaeth nac eneteg. Gwrthwyneb rhyngryw yw endoryw, lle mae person yn cyfateb i ddisgwyliadau confensiynol. Mae rhai clinigwyr yn defnyddo'r term gwahaniaethau mewn datblygiad rhywiol (DSD), ond mae'r term hwn yn amhoblogaidd ymhlith grwpiau rhyngryw am ei fod yn gysylltiedig â hen ystyr DSD, sef "anhwylderau datblygiad rhywiol". Teimlir bod y term "anhwylder" yn ddifrïol. Yn yr un modd, mae'r term rhyngryw yn cael ei wrthod gan rai grwpiau weithiau y mae'n well ganddynt gyfeirio at "Amrywiadau mewn Nodweddion Rhyw" (VSC) neu "amrywiadau mewn anatomi cenhedlu neu ryw".

**LHDTC+:** Mae'n cyfeirio at bobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsryweddol/draws, pobl gwiar a phobl sy'n cwestiynu. Gellir ychwanegu llythrennau at yr acronym i gynnwys grwpiau, cyfeiriadeddau a hunaniaethau eraill megis Rh (rhyngryw) ac A (arywiol/aramantaidd). Defnyddir yr arwydd + yn yr acronym fel llaw fer i gynnwys a chydnabod teramu amrywiol eraill y mae pobl yn uniaethu â nhw ac yn eu defnyddio i ddisgrifio eu hunaniaethau a'u cyfeiriadeddau, gan gynnwys pobl ryngryw, arywiol ac aramantaidd.

**Anneuaidd:** Diffinnir person anneuaidd fel rhywun sydd â rhywedd y tu allan i'r syniad traddodiadol deuaidd gwryw/benyw o rywedd.

**Nodweddion Gwarchodedig:** Mae adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi beth yw nodweddion gwarchodedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, Beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

**Cwiar:** Term a ddefnyddir yn bennaf gan bobl sy'n uniaethu â chyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd leiafrifol, ac sydd weithiau yn gwrthod labeli eraill ar gyfeiriadeddau neu hunaniaethau. Er i'r term hwn gael ei ddefnyddio fel un difrïol am unigolion LHDTC+ yn y gorffennol, ac mae rhai pobl yn ystyried bod y term yn un sarhaus, mae bellach wedi cael ei adfeddiannu gan lawer o gymunedau LHDTC+.

**Rhyw:** Term a briodolir i berson ar sail ystod o nodweddion gan gynnwys cromosomau, proffiliau hormonau ac anatomi a swyddogaethau cenhedlu (e.e., organau rhywiol). Nid yw rhywedd rhai pobl yn cyfateb i'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni (gweler trawsryweddol/traws). Ar hyn o bryd yn y DU, dim ond dau ryw y gellir eu cofnodi ar adeg geni, nad ydynt yn cynnwys pobl ryngryw. Yn adran 11 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dywed "in relation to the protected characteristic of sex — (a)a reference to a person who has a particular protected characteristic is a reference to a man or to a woman".

**Cyfeiriadedd Rhywiol:** Diffinnir y term hwn yn adran 12 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ystyr cyfeiriadedd rhywiol yw cyfeiriadedd rhywiol person tuag at bobl o'r un rhyw, pobl o'r rhyw arall neu bobl o'r naill ryw neu'r llall. Gall pobl ddefnyddio'r termau heterorywiol, hoyw, deurywiol, lesbiaidd neu strêt i ddisgrifio eu cyfeiriadedd rhywiol.

**Trawsryweddol/traws:** Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio pobl nad yw eu rhywedd yn cyd-fynd â'r rhyw a bennwyd iddynt adeg eu geni neu nad ydynt yn gyfforddus ynglŷn â'r rhyw a bennwyd iddynt adeg eu geni. Gwrthwyneb trawsryweddol yw cisryweddol, sy'n disgrifio pobl y mae eu rhywedd yn cyd-fynd â'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni neu y maent yn gyfforddus â'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni. Bydd rhai pobl anneuaidd yn ystyried eu hunain yn bobl drawsryweddol, ond nid pob un.

# Cyfeiriadau

a:gender 2022. A Brief Guide to Terminology. Safle cyhoeddedig byw. Ar gael yn: **https://www.agender.org.uk/terminology** [Cyrchwyd 17 Hydref 2022].

Aksoy et al. 2019 Gay glass ceilings: Sexual orientation and workplace authority in the UK – ScienceDirect. Ar gael yn: **https://doi.org/10.1016/j.jebo.2019.01.013** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

Ymddiriedolaeth Albert Kennedy, 2015, LGBTQ Youth Homelessness: A UK National Scoping of Cause, Prevalence, Response and Outcome, ar gael ar-lein yn: **https://www.basw.co.uk/system/files/resources/basw_31219-10_0.pdf** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Ashley F. 2019. Thinking an ethics of gender exploration: Against delaying transition for transgender and gender creative youth. Clinical Child Psychology and Psychiatry. 2019;24(2):223-236. doi:**10.1177/1359104519836462**

AusPATH 2021. Gender Affirming Surgery In Australia: an Evidence Brief **https://auspath.org.au/wp-content/uploads/2022/06/GenderAffirmingSurgery_EvidenceBrief.pdf** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023].

BACP 2022. Memorandum of understanding on conversion therapy in the UK Collaborative publication. Ar gael yn: **https://www.bacp.co.uk/events-and-resources/ethics-and-standards/mou/** [Cyrchwyd 29 Rhagfyr 2022]

Comisiwn Ansawdd Gofal 2019. Gender identity services Inspection report. Ar gael yn: **https://api.cqc.org.uk/public/v1/reports/6e4fbf84-909c-46d7-835c-caf304cdd485?20221129062700** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Coleman et al. 2022. Standards of Care for the Health of Transgender and Gender Diverse People, Fersiwn 8. Ar gael yn: **https://doi.org/10.1080/26895269.2022.2100644** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

Durwood L, McLaughlin KA, Olson KR 2018. Mental Health and Self-Worth in Socially Transitioned Transgender Youth. J Am Acad Child Adolesc Psychiatry. 2017 Feb;56(2):116-123.e2. doi: 10.1016/j.jaac.2016.10.016. Epub 2016 Nov 27. Gwall yn: J Am Acad Child Adolesc Psychiatry. Nov;57(11):899. **https://doi.org/10.1016/j.jaac.2016.10.016**

Durwood, L., Eisner, L., Fladeboe, K. et al. 2021. Social Support and Internalizing Psychopathology in Transgender Youth. J Youth Adolescence 50, 841–854. **https://doi.org/10.1007/s10964-020-01391-y**

Dyck, Jordan. 2019. LGBT African Asylum Seeker Research Project Report. Comisiynwyd gan Eglwys Gymunedol Fetropolitan Gogledd Llundain gyda chefnogaeth UKLGIG a Rhwydwaith LHDT Enfield. Ar gael yn: **http://mccnorthlondon.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/LGBT-African-Asylum-Seeker-Research-Project-Report.pdf** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018a. Is Britain Fairer? – The state of equality and human rights 2018. Ar gael yn: **https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-accessible.pdf** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018b. A yw Cymru’n Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018. Ar gael yn: **https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer-welsh.pdf** [Cyrchwyd 17 Hydref 2022].

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2020. How coronavirus has affected equality and human rights.
Ar gael yn: **https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/how-coronavirus-has-affected-equality-and-human-rights** [Cyrchwyd 4 Tachwedd 2020]

Estyn 2014. Adroddiad arolwg thematig.
Ar gael yn: **https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Gweithredu%2520ar%2520fwlio%2520-%2520Mehefin%25202014.pdf** [Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022]

Frank, J. 2006. Gay Glass Ceilings. Economica, 73: 485-508.
**https://doi.org/10.1111/j.1468-0335.2006.00516.x**

Galop 2022. The Use of Sexual Violence as an Attempt to Convert or Punish LGBT+ People in the UK.
Ar gael yn: **https://galop.org.uk/resource/the-use-of-sexual-violence-as-an-attempt-to-convert-or-punish-lgbt-people-in-the-uk/** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

GEO 2017. National LGBT Survey 2017 Data Viewer.
**https://government-equalities-office.shinyapps.io/lgbt-survey-2017/** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

GEO 2018a. National LGBT Survey Summary Report, July 2018.
Ar gael yn: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/722314/GEO-LGBT-Survey-Report.pdf** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

GEO 2018b. Research and analysis National LGBT Survey Data Viewer.
Ar gael yn: **https://www.gov.uk/government/publications/national-lgbt-survey-data-viewer** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

Glitter Cymru a DPIA 2022. Queer Migration in Wales: LGBTQ+ Asylum Seeker Housing Needs Report 2021/2.
Ar gael yn: **LGBTQ-Asylum-Seeker-Housing-Needs-Report.pdf (dpia.org.uk)**
[Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

Hafford-Letchfield, T., Simpson, P., Willis, P. B., ac Almack, K. 2018. Developing inclusive residential care for older lesbian, gay, bisexual and trans (LGBT) people: An evaluation of the Care Home Challenge action research project. Health & social care in the community, 26(2), e312-e320.
Ar gael yn: **https://doi.org/10.1111/hsc.12521**

Swyddfa Gartref 2021a. Official Statistics: Hate crime, England and Wales, 2020 to 2021 **https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2020-to-2021/hate-crime-england-and-wales-2020-to-2021** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

Swyddfa Gartref 2021b: Appendix Table.
Ar gael yn: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1023575/hate-crime-2021-appendix-tables-121021.ods** [Cyrchwyd 6 Ionawr 2023]

Swyddfa Gartref 2022a. Official Statistics Hate crime, England and Wales, 2021 to 2022. Ar gael yn: **https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2021-to-2022/hate-crime-england-and-wales-2021-to-2022**

Swyddfa Gartref 2022b: Appendix Table.
Ar gael yn: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1109294/hate-crime-england-and-wales-2021-to-2022-appendix-tables.ods**
[Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Swyddfa Gartref 2022c. Equality Impact Assessment EIA: Migration and Economic Development Partnership with Rwanda.
Ar gael yn: **https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1094019/Equalities_Impact_Assessment_MEDP_Rwanda_July_2022.pdf**
[Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

Cyngor Hawliau Dynol 2020. Practices of so-called “conversion therapy”: report of the Independent Expert on Protection against Violence and Discrimination based on Sexual Orientation and Gender Identity.
Ar gael yn: **https://digitallibrary.un.org/record/3870697**
[Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

ILGA_Europe 2022b. Rainbow Europe, Country Ranking. Ar gael yn: **https://www.rainbow-europe.org/country-ranking** [Cyrchwyd 31 Hydref 2022].

ILGA-Europe 2022a. Annual Review of The Human Rights Situation Of Lesbian, Gay, Bisexual, Trans And Intersex People In Europe And Central Asia. Ar gael yn: **annual-review-2022.pdf (ilga-europe.org)** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023].

Katz-Wise S.L., Diane Ehrensaft, Ralph Vetters, Michelle Forcier a S. Bryn Austin 2018. Family Functioning and Mental Health of Transgender and Gender-Nonconforming Youth in the Trans Teen and Family Narratives Project, The Journal of Sex Research, 55:4-5, 582-590, DOI: **10.1080/00224499.2017.1415291**

Klein A. a Sarit A. Golub 2016. Family Rejection as a Predictor of Suicide Attempts and Substance Misuse Among Transgender and Gender Nonconforming Adults. LGBT Health.Jun.193-199. **http://doi.org/10.1089/lgbt.2015.0111**

LGBT Foundation 2020. Hidden Figures: The Impact of the COVID-19 Pandemic on LGBT Communities. Ar gael yn: **https://lgbt.foundation/coronavirus/hiddenfigures** [Cyrchwyd 4 Tachwedd 2022]

LGBT Hero 2020. The LGBTQ+ Lockdown Wellbeing Report. [ar-lein] LGBT HERO. Ar gael yn: **https://www.lgbthero.org.uk/the-lgbtq-lockdown-wellbeing-report** [Cyrchwyd 20 Medi 2022].

LGBT Veterans Independent Review 2022. Datganiad i'r Wasg. **https://www.gov.uk/government/news/veterans-called-forward-to-share-views-on-pre-2000-ban-on-homosexuality-in-the-armed-forces** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Llamau 2019. Out On The Streets: LGBTQ+ Homelessness in Wales: **https://www.llamau.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=1ab2fc66-c571-44f0-8ceb-2d1346f38303** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

Deddf Llywodraeth Leol 1988. Adran 28. Ar gael yn: **https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/9/section/28/enacted** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

Milsom 2021 Just-Like-Us-2021-report-Growing-Up-LGBT.pdf (justlikeus.org). Ar gael yn: **https://www.justlikeus.org/wp-content/uploads/2021/11/Just-Like-Us-2021-report-Growing-Up-LGBT.pdf** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Mole, R. C. M. (gol.) 2021. Queer Migration and Asylum in Europe. Llundain: Gwasg UCL. **https://doi.org/10.14324/111.9781787355811** [Accessed 2 November 2022]

Morgan, H., Lamprinakou, C., Fuller, E. ac Albakri, M. 2020. Attitudes to transgender. [ar-lein] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ar gael yn: **https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/attitudes_to_transgender_people.pdf** [Cyrchwyd 21 Awst 2022].

NatCen Social Research et al. 2021. Health and health-related behaviours of Lesbian, Gay and Bisexual adults. Ar gael yn: **https://files.digital.nhs.uk/2B/18DD0A/LGB-Health-text-final%2Bageprofile.pdf** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

Swyddfa Ystadegau Gwladol 2023. Cyfeiriadedd rhywiol, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: **https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/bulletins/sexualorientationenglandandwales/census2021** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

OHCHR 2022a. International Human Rights Law. Ar gael yn: **https://www.ohchr.org/en/instruments-and-mechanisms/international-human-rights-law** [Cyrchwyd 4 Tachwedd 2022]

OHCHR 2022b. Independent Expert on sexual orientation and gender identity: overview. Ar gael yn: **https://www.ohchr.org/en/special-procedures/ie-sexual-orientation-and-gender-identity** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

OHCHR 2022c. Human Rights Council Adopts Four Resolutions – Extends Mandate of the Independent Expert on Protection from Violence and Discrimination Related to Sexual Orientation and Gender Identity. Ar gael yn: **https://www.ohchr.org/en/press-releases/2022/07/human-rights-council-adopts-four-resolutions-extends-mandate-independent** [Cyrchwyd 31 Hydref 2022]

Olson, K.R. a Gülgöz, S. 2018. Early Findings From the TransYouth Project: Gender Development in Transgender Children. Child Dev Perspect, 12: 93-97. **https://doi.org/10.1111/cdep.12268**

Olson, K.R., Durwood L., Madeleine DeMeules, a McLaughlin, K.A. 2016. Mental Health of Transgender Children Who Are Supported in Their Identities. Pediatrics Mawrth 2016; 137 (3): e20153223. **https://doi.org/10.1542/peds.2015-3223**

Pitman, A., Marston, L., Lewis, G., Semlyen, J., McManus, S., a King, M. 2022. The mental health of lesbian, gay, and bisexual adults compared with heterosexual adults: Results of two nationally representative English household probability samples. Psychological Medicine, 52(15), 3402-3411. doi: **https://doi.org/10.1017/S0033291721000052**

PolicyBristol 2017. Inclusive care homes, Prifysgol Bryste. Ar gael yn: **https://www.bristol.ac.uk/policybristol/policy-briefings/inclusive-care-homes/** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Pollitt, A. M., Ioverno, S., Russell, S. T., Li, G., a Grossman, A. H. 2021. Predictors and Mental Health Benefits of Chosen Name Use Among Transgender Youth. Youth & Society, 53(2), 320–341. **https://doi.org/10.1177/0044118X19855898**

Renold, E. a McGeeney, E. 2017a. Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru. Cymru: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: **https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/107650/1/Dyfodol%20y%20Cwricwlwm%20Addysg%20Rhyw%20a%20Pherthnasoedd%20yng%20Nghymru.pdf** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Renold, E. a McGeeney, E. 2017b. Informing the Future of the Sex and Relationships Education Curriculum in Wales. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: **informing-the-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales-web.pdf (cardiff.ac.uk)** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Russell ST, Pollitt AM, Li G, Grossman AH 2018. Chosen Name Use Is Linked to Reduced Depressive Symptoms, Suicidal Ideation, and Suicidal Behavior Among Transgender Youth. J Adolesc Health. 2018 Oct;63(4):503-505. doi: **https://doi.org/10.1016/j.jadohealth.2018.02.003**

Senedd Cymru 2022a. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Pride, a’r Cynnydd o ran y Cynllun Gweithredu LHDTC+ Ar gael yn: **https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/12878#A72850** [Cyrchwyd 17 Hydref 2022]

Senedd Cymru 2022b. Cyfarfod Llawn ar 7 Mehefin 2022, Mark Drakeford AS (14:01:31), Prif Weinidog Cymru. Ar gael yn: **https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/12874#C429824** [Cyrchwyd 6 Ionawr 2023]

Simons L, Schrager SM, Clark LF, Belzer M, Olson J. 2013. Parental support and mental health among transgender adolescents. J Adolesc Health. Dec;53(6):791-3. doi: **https://doi.org/10.1016/j.jadohealth.2013.07.019**

SSCR 2017. LGBTQI+* Disabled People and self-directed social care support. Ar gael yn: **https://www.scie.org.uk/lgbtqi/disabled-people/self-directed/** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

Stonewall 2017a. LHDT yng Nghymru - troseddau casineb a gwahaniaethu. Ar gael yn: **https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/system/files/lhdt_yng_nghymru_-_troseddau_casineb_stonewall_cymru.pdf** [Cyrchwyd 6 Ionawr 2023]

Stonewall 2017b. Adroddiad Ysgol Cymru. Ar gael yn: **https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/system/files/adroddiad_ysgol_stonewall_cymru_2017.pdf**

Stonewall 2018a. LGBT in Britain: Home and Communities.
Ar gael yn: **https://www.stonewall.org.uk/lgbt-britain-home-and-communities** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

Stonewall 2018b. LGBT in Britain: Health Report.
Ar gael yn: **https://www.stonewall.org.uk/system/files/lgbt_in_britain_health.pdf** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

Stonewall 2018c. LGBT in Britain: Work Report.
Ar gael yn: **https://www.stonewall.org.uk/lgbt-britain-work-report**

Stonewall 2022. List of LGBTQ+ terms. Safle cyhoeddedig byw. Ar gael yn: **https://www.stonewall.org.uk/list-lgbtq-terms** [Cyrchwyd 17 Hydref 2022].

Switchboard 2018. Croestoriadedd: Race/Ethnicity and LGBTQ People in Brighton & Hove. Ar gael yn: **https://www.switchboard.org.uk/wp-content/uploads/2019/02/Intersectionality-report.pdf** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Travers R, Bauer G, Pyne J, Bradley K, for the Trans PULSE Project; Gale L, Papadimitriou M. Impacts of Strong Parental Support for Trans Youth: A Report Prepared for Children's Aid Society of Toronto and Delisle Youth Services. 2 Hydref 2012. Ar gael yn: **https://transpulseproject.ca/wp-content/uploads/2012/10/Impacts-of-Strong-Parental-Support-for-Trans-Youth-vFINAL.pdf**

UNSDG 2022. Human Rights-Based Approach. Ar gael yn: **https://unsdg.un.org/2030-agenda/universal-values/human-rights-based-approach** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

Wallace R. a Hershel Russell 2013. Attachment and Shame in Gender-Nonconforming Children and Their Families: Toward a Theoretical Framework for Evaluating Clinical Interventions, International Journal of Transgenderism, 14:3, 113-126, DOI: **10.1080/15532739.2013.824845**

Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru 2022. Map cyflym o effaith y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau ar gymunedau LHDTC+ yn y DU a pha gamau gweithredu allai helpu i fynd i'r afael â hyn. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, Mawrth 2022.
Ar gael yn: **http://www.primecentre.wales/resources/REM/REM00029-Wales_COVID-19_Evidence_Centre_Rapid_Evidence_Map_of_the_Impact_of_the_COVID_on_LGBTQ-PLus_communities-March_2022-cy.pdf** [Cyrchwyd 1 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2019a. Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol. Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu
Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-09/gweithredu-ar-anabledd-yr-hawl-i-fywn-annibynnol-fframwaith-ar-cynllun-gweithredu.pdf (llyw.cymru)** [Cyrchwyd 7 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2019b. Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: **https://www.llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-rhieni-gofalwyr** [Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2019c. Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: **https://www.llyw.cymru/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-ar-gyfer-awdurdodau-lleol** [Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2020a. Adroddiad Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol Pobl dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd ethnig COVID-19: ymateb Llywodraeth Cymru. **https://www.llyw.cymru/adroddiad-grwp-economaidd-gymdeithasol-bame-covid-19-ymateb-llywodraeth-cymru-html** [Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2020b. Cynllun Cydraddoldeb Strategol, 2020-2024. Ar gael yn: **https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chamau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-2024.pdf** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2020]

Llywodraeth Cymru 2020c. Datganiad Ysgrifenedig: Datganiad o gefnogaeth i Gymunedau Traws Cymru
Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-o-gefnogaeth-i-gymunedau-traws-cymru**
[Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Llywodraeth Cymru 2020d. Blaenoriaethau ar gyfer Sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru. **https://www.cymrugreadigol.cymru/sites/creative/files/2022-04/WG38981%20Creative%20Industries%20Document%20W.pdf** [Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2020e. Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru. Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/cynllun-hyrwyddo-cydraddoldeb-rhwng-y-rhywiau.pdf (llyw.cymru)**
[Cyrchwyd 7 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2021a. Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad. Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-html** [Cyrchwyd 17 Hydref 2022].

Llywodraeth Cymru 2021b. Y Cytundeb Cydweithio: 2021.
Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/y-cytundeb-cydweithio-2021**
[Cyrchwyd 17 Hydref 2022].

Llywodraeth Cymru 2021c. Adroddiad i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r argymhellion ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb LHDTC+ yng Nghymru.
Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-07/argymhellion-panel-arbenigwyr-annibynnol-lhdtc+_1.pdf** [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2021d. Hyrwyddo cydraddoldeb LHDTC+: Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru (Drafft, Gorffennaf 2021).
Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-07/cynllun-gweithredu-lhdtc%2B-cymru_0.pdf**
[Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Llywodraeth Cymru 2021e. Drws ar Glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19. **https://www.llyw.cymru/drws-ar-glo-datgloi-bywydau-hawliau-pobl-anabl-yng-nghymru-ar-ol-covid-19**

Llywodraeth Cymru 2021f. Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau. Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau**
[Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

Llywodraeth Cymru 2021g. Staff amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru yn cael cynnig hyfforddiant LGBTQ+ **https://www.llyw.cymru/staff-amgueddfeydd-archifau-llyfrgelloedd-yng-nghymru-yn-cael-cynnig-hyfforddiant-lgbtq** [Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2022a. Adroddiad ymchwil Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru: ymateb Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/adroddiad-ymchwil-cryfhau-hyrwyddo-cydraddoldeb-hawliau-dynol-yng-nghymru-ymateb-llywodraeth-cymru** [Cyrchwyd 29 Rhagfyr 2022]

Llywodraeth Cymru 2022b. Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol_0.pdf**
[Cyrchyd 7 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2022c. Cymraeg 2050: cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2022 i 2023
Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-cynllun-gweithredu-strategaeth-y-gymraeg-2022-i-2023-html**
[Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2022d. **Gwaith ar wahardd therapi trosi yn symud ymlaen yng Nghymru**. Ar gael yn: Gwaith ar wahardd therapi trosi yn symud ymlaen yng Nghymru [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].

Llywodraeth Cymru 2022e. Datganiad Ysgrifenedig: Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2022. **https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-wythnos-genedlaethol-ymwybyddiaeth-o-droseddau-casineb-2022** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Llywodraeth Cymru 2022f. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026. Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-strategaeth-2022-i-2026-html** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Llywodraeth Cymru 2022g. Datganiad Ysgrifenedig: Lansio Cynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol a Chronfa Sgiliau Creadigol Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-lansio-cynllun-gweithredu-sgiliau-creadigol-chronfa-sgiliau-creadigol** [Cyrchwyd 3 Tachwedd 2022]

Llywodraeth Cymru 2023. Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021) Ar gael yn: **https://www.llyw.cymru/cyfeiriadedd-rhywiol-hunaniaeth-o-ran-rhywedd-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]

Hwb Llywodraeth Cymru 2022. Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm **https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm** [Cyrchwyd ym mis Ionawr 2023]

Westwood 2018. Abuse and older lesbian, gay bisexual, and trans (LGBT) people: a commentary and research agenda: Journal of Elder Abuse & Neglect: Cyf 31, Rhif 2. Ar gael yn: **https://doi.org/10.1080/08946566.2018.1543624**

Sefydliad Iechyd y Byd 2018. Gender incongruence and transgender health in the ICD. Ar gael yn: **https://www.who.int/standards/classifications/frequently-asked-questions/gender-incongruence-and-transgender-health-in-the-icd** [Cyrchwyd 9 Ionawr 2023]